

Llais y Disgybl yng Nghymru: effaith y pandemig Covid-19

Ymchwil

Rhif y ddogfen ymchwil: 74/2023
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Llais y Disgybl yng Nghymru: effaith y pandemig Covid-19

Cynulleidfa

Ymgwymerwyd â'r prosiect hwn fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau wedi'u hanelu at Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Addysg Leol (AALLau) a chonsortia addysgol gyda'r bwriad o gefnogi ysgolion i ddatblygu eu gweithgareddau llais y disgybl ymhellach a gwella effaith llais y disgybl.

Trosolwg

Adolygu llais y disgybl yng Nghymru ac ymchwiliad i effaith y pandemig Covid-19 ar weithgareddau llais y disgybl mewn ysgolion.

Awduron: Dr Rhian Croke, Arwyn Roberts, Yr Athro Jane Williams (Arsyllfa Hawliau Dynol Plant ym Mhrifysgolion Bangor ac Abertawe)

Camau i'w cymryd

Dylid egluro pwrpas llais y disgybl yng Nghymru ar lefel genedlaethol i ategu fframweithiau polisi ar hawliau plant, llesiant, datblygu cynaliadwy a chwricwla addysgol. Gan ddysgu o waddolion y pandemig, dylid cryfhau llais y disgybl i feithrin gwytnwch ac optimeiddio cyfathrebu â phlant mewn argyfyngau yn y dyfodol. Dylai adnoddau presennol a newydd ar lais y disgybl, ymagwedd hawliau plant at addysg ac addysg hawliau dynol gael eu coladu a sicrhau eu bod ar gael i ymarferwyr ac mewn Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Dylid monitro gweithrediad llais y disgybl ym mhob lleoliad addysgol.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Arwyn Roberts
Ysgol Gwyddorau Addysgol
Prifysgol Bangor
e-bost: a.b.roberts@bangor.ac.uk



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Copïau ychwanegol

Gellir cyrchu'r ddogfen hon oddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeiriad gwefan:

<https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/rhwydwaith-tystiolaeth-gydweithredol/>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	Error! Bookmark not defined.
1 Cyflwyniad a Chefndir	Error! Bookmark not defined.
2 Methodoleg.....	Error! Bookmark not defined.
3 Adolygiad llenyddiaeth	Error! Bookmark not defined.
4 Dadansoddiad o ganfyddiadau empirig ..	Error! Bookmark not defined.
5 Trafodaeth	Error! Bookmark not defined.
6 Casgliad terfynol ac argymhellion	Error! Bookmark not defined.
7 Cyfeiriadau	Error! Bookmark not defined.

Ffigurau

Ffigur 1: Cyn-bandemig, pa fathau o weithgareddau cyfranogol/llais y disgybl a ddigwyddodd yn eich ysgol (C1) – Pob Ysgol.

Ffigur 2: Cyn-bandemig, pa fathau o weithgareddau cyfranogol/llais y disgybl a ddigwyddodd yn eich ysgol? (C1) – Gwe a'r Canolbarth a CSC, EAS NPT.

Ffigur 3: Cyn-bandemig, pa fathau o weithgareddau cyfranogol/llais y disgybl a ddigwyddodd yn eich ysgol? (C1) – Cynradd ac Uwchradd.

Ffigur 4: Pa rai o'r gweithgareddau hyn a gafodd eu cwtdogi neu eu cyfyngu gan y cyfnodau clo/ynysu? (C2) – Pob Ysgol

Ffigur 5: Pa rai o'r gweithgareddau hyn gafodd eu cwtdogi neu eu cyfyngu gan y cyfnodau clo/ynysu? (C2) – Gwe a'r Canolbarth a CSC, EAS NPT.

Ffigur 6: Pa rai o'r gweithgareddau hyn gafodd eu cwtdogi neu eu cyfyngu gan y cyfnodau clo/ynysu? (C2) – Cynradd ac Uwchradd.

Ffigur 7: Wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd yn ystod y cyfnodau clo / ynysu? (C3) – Pob ysgol.

Ffigur 8: Wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd yn ystod y cyfnodau clo / ynysu? (C3) – Gwe a'r Canolbarth a CSC, EAS NPT.

Ffigur 9: Wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd yn ystod y cyfnodau clo / ynysu? (C3) – Cynradd ac Uwchradd.

Ffigur 10: Pa rai o'r gweithgareddau hyn a gafodd eu cwtdogi neu eu cyfyngu gan y rheoliadau (swigod blwyddyn/dosbarth) sydd wedi'u gosod ar ysgolion ers dychwelyd i'r ystafell ddosbarth (C4) – Pob ysgol.

Ffigur 11: Pa rai o'r gweithgareddau hyn a gafodd eu cwtdogi neu eu cyfyngu gan y rheoliadau (swigod blwyddyn/dosbarth) sydd wedi'u gosod ar ysgolion ers dychwelyd i'r ystafell ddosbarth (C 4) - Gwe a'r Canolbarth a CSC, EAS NPT.

Ffigur 12: Pa rai o'r gweithgareddau hyn a gafodd eu cwtdogi neu eu cyfyngu gan y rheoliadau (swigod blwyddyn/dosbarth) sydd wedi'u gosod ar ysgolion ers dychwelyd i'r ystafell ddosbarth? (C4) – Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Ffigur 13: Wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd o dan y rheoliadau Covid? (C5) – Pob ysgol

Ffigur 14: Wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd o dan y rheoliadau Covid? (C5) Gwe a'r Canolbarth a CSC, EAS NPT.

Ffigur 15: Wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd o dan y rheoliadau Covid? (C5) Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gwestiynau ymchwil am effaith pandemig Covid 19 ar lais y disgybl yng Nghymru ac yn archwilio'r gwersi y gellir eu dysgu o brofiad staff a disgyblion ysgol. Cynhaliwyd yr ymchwil gyda'r bwriad o lywio unrhyw adolygiad gan Lywodraeth Cymru o sut y gellir cefnogi llais y disgybl yn well yn yr amgylchedd presennol a'r amgylchedd tebygol yn y dyfodol.

Mae 'llais y disgybl' at ddibenion yr adroddiad hwn yn derm ymbarél a ddefnyddir yn gyffredin i gyfeirio at drefniadau i annog a galluogi dysgwyr mewn lleoliadau addysgol i gymryd rhan, mewn rhyw ffordd, mewn gwneud penderfyniadau.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys adolygiad wrth y ddesg o lenyddiaeth berthnasol ar lais y disgybl, y cyd-destun polisi yng Nghymru a'r hyn sydd eisoes yn hysbys am effaith y cyfnod clo, cau ysgolion a chyfyngiadau eraill sy'n gysylltiedig â Covid 19 ar weithgareddau llais y disgybl, ac yna gwaith empirig yn cynnwys arolwg ar-lein yr ymatebodd 99 o ysgolion Cymru iddo. Casglwyd tystiolaeth o arferion cadarnhaol a myfyrdodau i lywio casgliadau ac argymhellion yr adroddiad.

Datgelodd yr adolygiad llenyddiaeth nifer o agendâu polisi sy'n cael eu cysylltu'n amrywiol â llais y disgybl (yng Nghymru a thu hwnt) neu a wasanaethir ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu sgiliau ar gyfer dinasyddiaeth, dysgu a llesiant gwell, ymarfer democratiaeth, gwireddu hawliau plant a gwreiddio dulliau ysgol gyfan sy'n seiliedig ar hawliau, a hyrwyddo addysg hawliau dynol. Yng Nghymru, ers datganoli, mae hawliau a chyfranogiad plant wedi cael lle amlwg mewn trafodaethau polisi. Dylid gweld trywydd cyn-bandemig llais y disgybl yn y cyd-destun hwnnw, ochr yn ochr ag yn rhyng-gysylltiedig â pholisiau arwyddocaol a nodedig ar gwricwla addysgol a thwf y fframwaith polisi trosfwaol ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cefnogaeth ôl-ddatganoli ar gyfer cyfranogiad plant yn amlwg o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynulliad plant a phobl ifanc, Draig Ffyndi, ac yna llwyfan ymgynghorol o'r enw Cymru Ifanc, a sefydlu Comisiynydd Plant Cymru y mae ei gylch gwaith yn cynnwys cynrychioli buddiannau plant i'r llywodraeth.

O 2018, mae'r Senedd wedi cefnogi Senedd leuenctid i Gymru sy'n cael ei hethol gan bobl ifanc 11 i 17 oed yng Nghymru. Ar lefel awdurdod lleol, mae gofyniad cyfreithiol am drefniadau sy'n galluogi plant i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Ar lefel ysgol, mae cynghorau ysgol yn ofyniad cyfreithiol. O dan ddeddfwriaeth llesiant cenedlaethau'r dyfodol, mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hannog i ymgysylltu â phlant i lywio penderfyniadau'r byrddau. Mae arolygiaeth ysgolion Cymru, Estyn, wedi datblygu egwyddorion ac enghreifftiau o arfer orau ar gyfranogiad disgyblion.

Mae'r cyd-destun polisi ehangach hwn yn bwysig oherwydd ei fod yn cynnig cyfleoedd i gysylltu gweithgareddau llais y disgybl, lle bo'n briodol, â sgursiau polisi ar lefelau lleol a chenedlaethol. Mae'n darparu amgylchedd sy'n ffafriol i effaith negeseuon a mentrau a gynhyrchir gan blant mewn ysgolion, y mae llenyddiaeth ymchwil yn awgrymu ei bod yn bwysig i'r plant dan sylw deimlo bod eu hymdrechion yn cael eu gweld a'u hystyried yn rhai gwerth chweil. Mae rhai o'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn wedi'u cyfeirio at well cysylltedd rhwng y gwahanol lefelau a'r mathau o gyfleoedd cyfranogiad a roddir i blant yng Nghymru.

Nid oes amheuaeth bod cyfyngiadau cysylltiedig â Covid 19 yng Nghymru, fel mewn llawer o wledydd eraill, wedi amharu ar lawer o weithgareddau llais y disgybl. Mae astudiaethau ymchwil yn adlewyrchu pryderon cyffredin am fethiannau i ymgysylltu â phlant neu gynnal asesiadau o effaith ar blant pan roddwyd y mesurau brys cynnar ar waith. Yn yr un modd mae tystiolaeth o welliant mewn cyfathrebu wrth i amser fynd yn ei flaen. Dwy thema gyffredin nodedig yn y llenyddiaeth a adolygwyd yw'r 'rhaniad digidol' a'r anghydraddoldebau cysylltiedig o ran mynediad at gyfleoedd ar gyfer dysgu a chyfranogiad, a'r canfyddiad bod ysgolion lle'r oedd arferion cyfranogiad da eisoes yn fwy gwydn i'r aflonyddwch a'r canlyniadau.

Yng Nghymru, gwnaed ymdrechion sylweddol ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth Comisiynydd Plant Cymru, a'r Senedd a'i phwyllgorau, i gyfathrebu â phlant a gwranddo arnynt ac i ddysgu o'u profiadau a'u safbwyntiau. Ar lefel ysgol, mae'r data a gasglwyd ar gyfer yr ymchwil hwn yn dangos, er bod tarfu ar weithgareddau llais y disgybl, i gyd-fynd â hyn roedd ymdrechion rhyfeddol gan rai arweinwyr ysgol a staff i ddod o hyd i ffyrdd amgen o gefnogi cyfranogiad disgyblion. Er bod gweithgareddau llais disgyblion cyn-bandemig wedi'u cwtogi, dywedodd tua 70% o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi dod o hyd i ffyrdd o 'gadw pethau i fynd' yn ystod cyfnodau clo ac ar ôl dychwelyd i gyfyngiadau yn yr ysgol ('swigod' dosbarth).

Soniodd cyfranogwyr ymchwil a ddisgrifiodd addasiadau a wnaed am yr uwch-sgilio cyflym yn y defnydd o dechnolegau ar-lein a ddigwyddodd yn eu hysgolion. Darganfuwyd ffyrdd newydd o ymgysylltu â disgyblion gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau, arolygon, cwisiau a chyfryngau cymdeithasol. Er ei fod yn dda i'r rhai a allai gael mynediad iddo, mae angen ystyried hyn ochr yn ochr â'r pryderon ynghylch anghydraddoldebau o ran mynediad at gyfleusterau ar-lein.

Roedd cau ysgolion a chyfyngiadau 'swigod' dilynol yn gysylltiedig â dirywiad mewn sgiliau a hyder ymhlith disgyblion a oedd yn dychwelyd i'r ysgol, a oedd yn golygu bod angen ymdrechion gan athrawon i fynd yn ôl at lefelau ymgysylltu cyn-bandemig. Ar yr un pryd, nododd cyfranogwyr ymchwil fanteision parhaol posibl o'r addasiadau yr oedd yn rhaid iddynt eu gwneud, gan gynnwys nid yn unig uwch-sgilio wrth ddefnyddio systemau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol, ond hefyd mwy o gydweithio o fewn yr ysgol a chydag asiantaethau a chymunedau allanol, cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu mwy amrywiol, mwy o ffocws ar les disgyblion a'r defnydd o ofod awyr agored, ac ymrwymiad wedi'i adnewyddu neu wedi'i adfywio i lais y disgybl.

Yn ddiddorol, roedd rhai cyfranogwyr ymchwil yn adlewyrchu bod llais y disgybl bellach yn cael ei weld fel rhan annatod o'r hyn sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru, wedi'i ysgogi gan wersi o'r pandemig. Dywedodd un arweinydd ysgol: 'Dyw hi erioed wedi bod yn amser gwell i fod yn ddinesydd mwy gwybodus yn foesegol'.

I gloi, mae'r ymchwil hwn yn awgrymu, er bod mesurau Covid 19 wedi cael effeithiau aflonyddgar ar weithgareddau llais y disgybl mewn ysgolion yng Nghymru, roedd rhai effeithiau cadarnhaol o ran defnyddio gwahanol offer a thechnegau (digidol yn bennaf) a mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd llais y disgybl fel rhan annatod o ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Wrth ddysgu gwersi ar gyfer ymdrin ag argyfyngau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag amharu ar arferion arferol yr ysgol, mae hefyd yn amser da nawr i fynegi'n gliriach lle a swyddogaeth llais y disgybl wrth

weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ac yng nghyd-destun polisi ehangach cyfranogiad plant.

1 Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith ymchwil ar lais y disgybl yng Nghymru ac effaith pandemig Covid 19 ar lais y disgybl yng Nghymru. Nod yr ymchwil yw helpu Llywodraeth Cymru i adolygu sut y gellir cefnogi llais y disgybl yn well yn yr amgylchedd presennol a'r amgylchedd tebygol yn y dyfodol, gan ystyried polisi ehangach y llywodraeth yn ogystal ag effaith y pandemig ar ysgolion.

Roedd cwestiynau'r ymchwil fel a ganlyn:

1. Sut mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfranogiad disgyblion mewn ysgolion ledled Cymru??
2. Pa wersi y gellir eu dysgu gan athrawon a disgyblion ar sut mae llais y disgybl wedi cael ei ymgysylltu'n effeithiol yn ystod ac ar ôl y pandemig?

Cefndir yr ymchwil yw cau ysgolion yng Nghymru, fel mewn llawer o leoedd eraill ar draws y byd, o ddechrau 2020, a chyfyngiadau parhaus ar bresenoldeb arferol mewn ysgolion yn ystod y ddwy flynedd ganlynol.

Gellir tybio bod cau a chyfyngiadau ysgolion yn cael effaith negyddol ar lais y disgybl. Mae ymchwil ryngwladol a gynhaliwyd gan UNESCO a Chyngor Ewrop (2021) yn dangos bod cyfleoedd a dysgu ar lais myfyrwyr wedi'u colli'n gyffredinol yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd o ran darparu llais y disgybl yn ystod y pandemig mewn ysgolion ledled Cymru.

Trefnwyd ein hymchwil mewn dau gam. Yn gyntaf, cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth ar lais y disgybl yn gyffredinol, ar lais y disgybl yng Nghymru ôl-ddatganoli yn benodol, ac ar yr hyn sy'n hysbys eisoes am effaith y pandemig ar gyfranogiad plant mewn gwneud penderfyniadau. Yn ail, cynhaliwyd ymchwil empirig, gan ddefnyddio arolwg ar-lein gydag addysgwyr, i ddysgu'n uniongyrchol o brofiad lleol beth oedd y prif heriau i gefnogi darpariaeth llais y disgybl yng Nghymru yn ystod y pandemig. O'r data hwn, casglwyd enghreifftiau o arfer gorau, gan ddangos tystiolaeth lle'r oedd addysgwyr yn parhau i rymuso plant yn llwyddiannus i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau mewn ysgolion.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r ddau gam, wedi'i ddilyn gan argymhellion hyd yn hyn, fel y nodwyd yn ein dadansoddiad.

Mae'r awduron yn cydnabod yn ddiolchgar gyfraniad hanfodol pob cyfranogwr ymchwil, a'r gefnogaeth amhrisiadwy a ddarparwyd gan aelodau o dîm cefnogi ymchwil Prifysgol Bangor.

2 Methodoleg

2.1 Cam 1 yr Ymchwil: Adolygiad o lenyddiaeth

Nod yr adolygiad llenyddiaeth oedd egluro yng nghyd-destun yr ymchwil hwn beth yw 'llais y disgybl', sut mae'n ffurfio rhan o ddealltwriaeth ehangach o gyfranogiad plant mewn gwneud penderfyniadau, a'r hyn sy'n hysbys eisoes am effaith Covid 19 ar hyn.

Er mwyn ennill dealltwriaeth o lais y disgybl mewn trafodaeth academaidd a pholisi, cynhaliwyd adolygiad cyflym o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd trwy chwilio am eiriau allweddol:

'llais y disgybl, 'cyfranogiad disgyblion', cyfranogiad plant, 'hawliau plant', 'CCUHP', 'llais y disgybl mewn addysg', 'hawliau plant mewn addysg', 'ymagwedd hawliau plant at addysg, 'cynghorau ysgol', 'addysg dinasyddiaeth ' a 'democratiaeth mewn ysgolion,' ac ati.

Ar ôl adolygu'r llenyddiaeth hon, nodwyd themâu a oedd yn awgrymu nifer o wahanol agendâu polisi a wasanaethir gan lais y disgybl neu gyfranogiad mewn addysg.

Y cam nesaf oedd nodi'r agenda bolisi dominyddol a wasanaethir gan lais y disgybl yng Nghymru a gwnaed hyn drwy gynnal adolygiad o'r gyfraith a dogfennau polisi ar gyfranogiad plant, hawliau plant, ac addysg yng Nghymru, ers datganoli yn 1999 hyd at 2022.

Yn olaf, cynhaliwyd adolygiad cyflym i ddarganfod pa dystiolaeth ymchwil sydd eisoes yn bodoli o effaith Covid 19 ar lais y disgybl, yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Geiriau allweddol y chwiliwyd amdanynt oedd:

'Covid 19 a hawliau plant', 'Covid 19 a chyfranogiad plant mewn gwneud penderfyniadau', 'Covid 19 a llais y disgybl, 'Covid 19 a chyfranogiad disgyblion', 'Covid 19 a chynghorau ysgol, 'Effaith Covid 19 ar ysgolion', 'Covid 19 a hawl plant i gael eu clywed', ac ati.

Cynhaliwyd pob cam o'r adolygiad llenyddiaeth rhwng mis Mawrth 2022 a mis Hydref 2022. Nid oedd unrhyw gyfyngiad ar oedran y cyhoeddiad, ond roedd y ffocws cyffredinol ar ddogfennau a ysgrifennwyd ar ôl datganoli. Roedd mewnwelediadau a ddeilliodd o'r adolygiad llenyddiaeth yn sail i ddyluniad yr arolwg ar gyfer Cam 2, fel yr eglurir isod.

2.2 Cam 2 yr Ymchwil: Ymchwil Empirig i asesu effaith pandemig Covid-19 ar lais y disgybl a pha wersi y gellir eu dysgu.

Roedd y cam hwn o'r ymchwil yn gofyn am ymchwil empirig gydag addysgwyr i ystyried sut mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar lais y disgybl mewn ysgolion ledled Cymru a pha wersi y gellir eu dysgu, gan fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil:

1. Sut mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar lais y disgybl mewn ysgolion ledled Cymru?

2. Pa wersi y gellir eu dysgu gan athrawon a disgyblion ar sut mae llais y disgybl wedi cael ei ymgysylltu'n effeithiol yn ystod ac ar ôl y pandemig?

2.2.1 Dylunio Ymchwil

Defnyddiodd yr ymchwil ddulliau cymysg gan gyfuno cwestiynau meintiol, caeedig ac ansoddol, byr a phenagored i ateb cwestiynau ymchwil. Datblygwyd yr arolwg ar-lein, a chasglwyd data, gan ddefnyddio meddalwedd y mae gan Brifysgol Bangor drwydded safle ar ei chyfer: Arolwg Ar-lein i Athrawon (Gan ddefnyddio Jisc Online Surveys, Dolen i'r arolwg¹). Nod cwestiynau'r arolwg oedd canfod canfyddiad y rhai sy'n hwyluso llais y disgybl mewn ysgolion o effaith y pandemig ar eu gwaith: beth sy'n digwydd, pryd/i bwy, a sut, a sut roedd hyn yn amrywio yn ystod y pandemig ac o'r cyfnod yn union o'i flaen.

2.2.2 Disgrifiad Sampl

Diffiniwyd y boblogaeth darged ar gyfer yr astudiaeth fel aelodau o staff ysgol sy'n gyfrifol am lais y disgybl mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd prif ffrwd yng Nghymru.

Defnyddiwyd cynllun sampl systematig gyda haeniad ymhlyg ar gyfer dewis ysgolion cynradd, canol ac uwchradd o blith 1424 o ysgolion yng Nghymru. Dewiswyd ysgolion o restr drefnus yn ôl awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg, Torfaen a Wrecsam), ac o fewn awdurdod lleol yn ôl cyfrwng iaith (Dwy ffrwd, cyfrwng Saesneg, Saesneg gyda Chymraeg sylweddol, Trosiannol a chyfrwng Cymraeg) a chanran y disgyblion mewn ysgolion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) (sgoriau canran cymedrig) ar gyfer 2019/21. O fewn pob ysgol dim ond un person a ddewiswyd ac a wahoddwyd i gwblhau holiadur llais y disgybl.

2.2.3 Trefn yr Arolwg

Cynhaliwyd yr holiaduron ar-lein ac anfonwyd llythyr gwahoddiad e-bost dwyieithog at bennaeth yr ysgol ym mis Mawrth 2022 gan y consortia ysgolion rhanbarthol (GwE, EAS, Partneriaeth Canolbarth Cymru, CSC, Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot), ac yna tri nodyn atgoffa dilynol ar ffurf cyfarfod Zoom, e-bost a galwad ffôn. Cymerodd naw deg naw o ysgolion yng Nghymru ran yn yr arolwg llais y disgybl. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 11.79%. Rhwng mis Mawrth 2022 a mis Ebrill 2022, gwahoddwyd ysgolion i sesiwn Zoom ar-lein i annog ysgolion i ymgysylltu ag arolygon y Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol ('RTG'). Yna anfonwyd e-bost atgoffa dilynol i'r ysgolion ar ffurf e-bost ym mis Mai 2022. Anfonwyd hwn at yr ysgolion drwy'r consortia ysgolion a soniodd y byddai swyddogion ymchwil RTG yn cysylltu ag ysgolion gyda galwad cwrteisi dilynol i'w

¹[Copi o Arolwg Ar-lein](#)

[Copi o Arolwg Iaith Gymraeg](#)

hatgoffa. Rhwng Mai 2022 a Mehefin 2022, gwnaed y galwadau ffôn atgoffa dilynol olaf i'r ysgolion i annog ysgolion i ymgysylltu ag arolygon RTG.

Unwaith y derbyniodd ysgol wahoddiad prosiect RTG, anfonwyd dolen arolwg holiadur llais y disgybl at bennaeth yr ysgol/aelod o staff enwebedig i'w anfon ymlaen at arweinydd llais y disgybl yn yr ysgol (os nad oedd sefyllfa o'r fath yn yr ysgol, gofynnwyd i bennaeth yr ysgol gwblhau holiadur yr arolwg). Gellid cwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Ymgwymerwyd â llythyrau gwahoddiad yr ysgol, a nodiadau atgoffa dilynol fel rhan o brosiectau ysgol RTG eraill Prifysgol Bangor.

2.2.4 Dadansoddiad Ystadegol

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ochr yn ochr â phrosiectau RTG eraill a arweiniwyd gan Brifysgol Bangor lle cafodd ysgolion yng Nghymru eu dewis a'u gwahodd i brosiectau RTG eraill. Fel y cyfryw, fe wnaethom ddefnyddio'r detholiad ymarferol o ysgolion i gysylltu â nhw ar gyfer yr arolwg llais y disgybl. Fe ddefnyddion ni dechnegau ôl-haenu, i gywiro'r tebygolrwyddau dethol anghyfartal ac i arolygu diffyg ymateb, paru'r set ddata ymatebol â'r set ddata poblogaeth ar y math o ysgol (cynradd, canol ac uwchradd) a rhanbarth (ardal 1 [Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Powys a Wrecsam], ac ardal 2 [Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg a Thorfaen]). Cafwyd y data poblogaeth ar y math o ysgol a'r rhanbarth o'r ffrâm sampl, h.y. holl aelodau'r boblogaeth (rhestr o'r holl enwau ysgolion yn y boblogaeth darged, gan gynnwys holl ysgolion cynradd, canol ac uwchradd Cymru).

Dadansoddwyd data meintiol gan ddefnyddio meddalwedd SPSS.

Dadansoddwyd data ansoddol gan ddefnyddio dadansoddiad cynnwys thematig trwy feddalwedd SPSS a'i gyfeirio'n gyntaf at yr heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu ac yn ail at y gwaith a wneir gan ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn cael gwrandawriad.

2.2.5 Cyfyngiadau

Roedd yr ymchwiler yn canolbwyntio ar ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd yn unig ac nid oedd yn cynnwys ffocws ar ysgolion arbennig nac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Byddai hyn yn gofyn am ymchwiler pellach gydag arolwg ar-lein wedi'i deilwra'n well i fynd i'r afael â gofynion cefnogi llais y disgybl yn y sefydliadau hyn. Er bod mwy o gwestiynau y gallem fod wedi'u gofyn yn yr arolwg, roedd ei gadw'n gryno yn golygu bod gennym gyfradd ymateb dda.

Ni chynhwyswyd plant fel cyfranogwyr yn yr astudiaeth ymchwiler hon. Fodd bynnag, mae'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant, ar y cyd â GwE Gogledd Cymru a KESS2 yn bwriadu cynnal uwchgynhadledd llais y disgybl gyda phlant i glywed eu barn ar lais y disgybl yng Nghymru gan blant, effaith Covid-19 ar lais y disgybl ac i drafod canfyddiadau'r adroddiad hwn.

3 Adolygiad o'r llenyddiaeth

Beth yw llais y disgybl?

Mae 'llais y disgybl' yn derm ymbarél a ddefnyddir yn aml i gyfeirio at drefniadau i annog a galluogi dysgwyr mewn lleoliadau addysgol i gymryd rhan mewn rhyw ffordd mewn gwneud penderfyniadau.

Mae adolygiad o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd yn datgelu y gellir rhoi trefniadau o'r fath ar waith am amrywiaeth o resymau, neu amcanion polisi:

- a. Dysgu sgiliau ar gyfer dinasyddiaeth (er enghraifft, y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2002); Adroddiad Crick (1998); Wyness (2009).
- b. Gwell profiadau dysgu, lles plant a phrofiadau addysgu (er enghraifft, Fielding a Ruddock (2002); Halsey et al (2006); Demetriou (2019); Lyle et al (2010); Flutter a Rudduck (2004); Rudduck a McIntyre (2007); Alexander (2017); Ysgol lechyd Meddwl Anna Freud (ND).
- c. Ymarfer democratiaeth mewn ysgolion (er enghraifft, Flutter (2007); Collins, ND, Keating a Janmaat (2016); Huddleston (2007); Wyness (2009).
- d. Gwireddu hawliau'r plentyn (er enghraifft, Noyes (2005); Lundy (2007); Lundy & O'Lynn (2018).
- e. Gwreiddio hawliau (gan gynnwys hawliau cyfranogol) mewn dulliau ysgol gyfan (er enghraifft Covell a Howe (2005); Sabba a Robinson (2010); Robinson (2014); EHRC (2020).
- f. Dysgu am hawliau dynol a gwreiddio Addysg Hawliau Dynol (AHD) (er enghraifft Struthers (2015); Struthers (2021); Lundy a Martinez (2018); EHRC (2020); Robinson et al 2020).

Yn y rhestr uchod, gellir ystyried bod a, b, c ac f yn ymwneud yn bennaf ag addysg y plentyn, gydag a, c, d ac f yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau a b ar ansawdd y profiad dysgu a lles dysgwyr ac athrawon.

Mae eitemau d ac e yn adlewyrchu uchelgais sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y mae plentyn yn ei ddysgu a lles perthynol cyfranogwyr ysgol. Mae gwireddu hawliau'r plentyn yn agenda bolisi llawer ehangach, a wasanaethir gan, ymhlith pethau eraill, strategaethau i wreiddio hawliau yn y ffordd y mae ysgolion (a sefydliadau eraill) yn cael eu rhedeg. Fel yr eglurir yn adran ganlynol yr adolygiad hwn o lenyddiaeth, mae gan y pwynt hwn atsain arbennig yng Nghymru. Mae agenda ar gyfer gwireddu hawliau plant yn cynnwys lluniad o blant â hawl i gael eu hystyried yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, benderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg ac amgylchedd yr ysgol.

Mae sawl astudiaeth ymchwil yn ceisio gwerthuso effeithiolrwydd mentrau ar gyfer llais y disgybl. Mae Halsey et al (2006) yn awgrymu bod gweithgareddau llais y disgybl heb fawr o effaith neu ddim effaith o ran newid gwirioneddol, yn cael llai o effeithiau, neu hyd yn oed effeithiau negyddol, ar blant. Mae Prifysgol Caeredin a Children in Scotland (2020) a Huddleston (2007) hefyd yn awgrymu bod ymagwedd ysgol gyfan, gynhwysol, sy'n mynd y tu hwnt i strwythurau ffurfiol fel cynghorau ysgol, yn fwy tebygol o lwyddo i gyflawni nodau llais y disgybl.

3.1 Llais y Disgybl yng Nghymru – Polisi a deddfwriaeth

3.1.1 Dulliau datganoledig penodol

Mae datganoli wedi galluogi gwahanol ddulliau i ddod i'r amlwg mewn prif feysydd polisi, gan gynnwys addysg. Daeth hawliau plant, a chydymffurfiaeth â gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('CCUHP'), i'r amlwg wrth lunio polisiau datganoledig, gan ddenu cefnogaeth drawsbleidiol a lliwio dulliau unigryw mewn sawl maes gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder ieuencid a lliniaru tloidi (Butler a Drakeford, 2013).

Yn 2004 penderfynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cyfarfod llawn mai CCUHP fyddai'r set gyffredinol o egwyddorion ar gyfer yr holl bolisiau datganoledig ar blant a phobl ifanc (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2004). Roedd cyfranogiad plant mewn gwneud penderfyniadau yn un elfen o agenda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a pharchu hawliau plant a CCUHP, a ategwyd gan ddogfennau polisi cynnar, megis Gweithredu'r Hawliau 2004, gydag un o'r 7 Nod Craidd (Nod Craidd 5) yn canolbwyntio'n benodol ar gyfranogiad plant (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004). Roedd dogfen bolisi arall, Ymestyn Hawliau, hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar gyfranogiad plant mewn gwneud penderfyniadau (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2001).

Roedd y dogfennau polisi hyn yn ddogfennau polisi trosfwaol, yn gweithredu fel canllawiau ar gyfer gwasanaethau a oedd yn effeithio ar blant, gan gynnwys addysg. Fel y dywedodd Lewis et al (ND t.5):

'Felly, o ystyried pa mor ganolog yw addysg, addysgu ac ysgolion ym mywydau'r rhan fwyaf o blant, byddai'n syndod peidio â chael CCUHP yn cael lle amlwg mewn cwricwla rhagnodedig, cyfarwyddiadau a chanllawiau'r llywodraeth yng Nghymru.'

Mae angen deall datblygiad polisiau ac arferion llais y disgybl ar ôl datganoli yn y cyd-destun ehangach hwn. Mae llais y disgybl wedi esblygu yn ei ffordd ei hun yng Nghymru. Mae'n arwyddocaol hefyd bod Deddf Addysg 2002 yn caniatáu ar gyfer Cwricwlwm Cenedlaethol ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr, gyda Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am fandadu cwricwlwm Cymru.

Amlygwyd y symudiad hwn tuag at hawliau plant mewn strategaethau mawr yn ystod dau dymor cyntaf y Cynulliad ar wasanaethau plant, tloidi plant a chyfiawnder ieuencid, yn ogystal ag arloesiadau strwythurol cynnar gan gynnwys creu Comisiynydd Plant Cymru a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i gynulliad plant a phobl ifanc anstatudol a elwir yn Draig Ffyndi (Williams 2013; Croke et al 2021), cyflwyno rheoliadau yn 2005 i wneud Cynghorau Ysgol yn orfodol (sylwer nad yw cynghorau ysgol yn orfodol yn Lloegr)², a datblygu Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (Crowley a Skeels 2009). Yn ystod y cyfnod hwn, datblygodd

² Roedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru (ac eithrio ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol fabanod a gynhelir) sefydlu cyngor ysgol, a'i ddiben yw galluogi disgyblion i drafod materion yn ymwneud â'u hysgol, eu haddysg ac unrhyw faterion eraill o bryder neu ddiddordeb a chyflwyno sylwadau ar y rhain i'r corff llywodraethu a'r pennaeth (Rheoliadau Cyngor Ysgolion (Cymru) 2005).

Llywodraeth Cymru adnoddau a gwefan (2008-2014) i helpu ymarferwyr i ddeall llais y disgybl a'i drosi'n ymarfer (Llywodraeth Cymru, N.D). Yn 2009, mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu cenedlaethol ar hawliau plant (Llywodraeth Cymru, 2009) gan gynnwys ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Cyfranogiad Cenedlaethol, Rheoliadau a Chanllawiau ar gyfranogiad disgyblion mewn lleoliadau addysgol ffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc 3-18 oed a phecynnau hyfforddi cenedlaethol ar gyfer athrawon. Ni chyflawnodd hyn fel y cyfryw, ond yn ystod y ddwy flynedd ganlynol gwelwyd datblygiadau cyfreithiol a pholisi sylweddol ar gyfranogiad plant a hawliau plant yng Nghymru:

- Roedd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud trefniadau i hybu a hwyluso cyfranogiad plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Cyhoeddwyd 'Cyfranogiad Disgyblion – canllaw arfer da', gyda rhestr ddefnyddiol o enghreifftiau o gyfranogiad ystyrllon ar wahanol lefelau yn yr ysgol (Llywodraeth Cymru 2011).
- Gosododd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ('Mesur 2011') ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i ofynion CCUHP. Mae hyn yn cwmpasu pob swyddogaeth, gan gynnwys swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud ag addysg, dysgu ac addysgu, ac ysgolion.
- Roedd Mesur 2011 hefyd yn cynnwys dyletswydd benodol i godi ymwybyddiaeth o CCUHP ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys plant.
- O dan Fesur 2011, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru lunio cynllun sy'n nodi eu trefniadau ar gyfer cyflawni eu dyletswydd a chyflwyno adroddiadau arno. Yng Nghynllun Plant dilynol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2014) mae asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yn rhan allweddol o'r trefniadau hyn.

3.1.2 Hawliau, cyfranogiad, addysg a llais y disgybl

Cefnogodd Llywodraethau olynol Cymru ymdrechion i fwydo barn pobl ifanc i brosesau llunio polisiau Llywodraeth Cymru, yn gyntaf drwy gefnogi'r elusen 'Draig Ffynici' ac yn ddiweddarach prosiect o'r enw 'Cymru Ifanc' a reolir gan Plant yng Nghymru (Croke a Williams 2018). Yn ogystal, rhan o gylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru yw ymgysylltu â phlant a chynrychioli eu safbwynt i Lywodraeth Cymru. Ar yr ochr seneddol, mae Senedd Ieuencid Cymru wedi'i sefydlu yn 2018 gyda chefnogaeth y Llywydd a'r Senedd. Mae'n nodedig bod materion addysgol wedi'u dewis ymhlith blaenoriaethau'r ddwy garfan hyd yma, gyda Senedd Ieuencid Cymru bresennol wedi dewis canolbwyntio arno fel 'Addysg a'r Cwricwlwm Newydd' (a drafodir isod) (Senedd Ieuencid Cymru 2022).

Mae'r strwythurau hyn yn cynnig potensial ar gyfer ymgysylltu rhwng llais y disgybl mewn ysgolion a sgysiau cenedlaethol rhwng y llywodraeth a phlant. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch y rhyngwyneb cyfyngedig rhwng llais plant mewn ysgolion a chyfluoedd lleol a chenedlaethol (Grŵp Monitro CCUHP Cymru 2020). Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallai'r gwerthusiad sydd ar ddod o Senedd Ieuencid Cymru a gwerthusiad o Cymru Ifanc, gynnig mewnwelediad i'r mater hwn. Fel yr adroddwyd gan Croke, mae enghreifftiau o wledydd eraill sy'n cysylltu cyfranogiad disgyblion mewn ysgolion yn llwyddiannus â seneddau ieuencid cenedlaethol (Croke 2016). Mae'n werth nodi nad yw Adroddiad Cydymffurfiaeth Cynllun Plant

Llywodraeth Cymru 2018 – 20, (Llywodraeth Cymru 2021a.) wrth drafod cyfranogiad ac ymrwymo i adolygu ei strategaeth genedlaethol ar gyfranogiad, yn sôn am lais y disgybl fel rhan o'r strwythurau neu fentrau sy'n cefnogi cyfranogiad.

Yn yr un modd, nid yw'r cysylltiad rhwng llais y disgybl mewn ysgolion a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('WFGA 2015'), yn amlwg, o leiaf ar lefel trafodaeth polisi cenedlaethol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygiad cynaliadwy a gwella a chyflawni llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Rhaid i bob corff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol (DLICD 2015). Fel rhan o'r gweithgaredd i gyflawni'r 7 Nod Llesiant a gyflawnir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, dylai cyfranogiad plant fod yn rhywbeth arferol (Croke et al 2021). Gweithiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd Plant Cymru ar y cyd i lunio canllawiau ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus o dan y Ddeddf ar ymgysylltu â phlant er mwyn llywio gwaith y byrddau. (Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 2018) Fodd bynnag, ni fu unrhyw werthusiad hyd yma ynghylch i ba raddau y mae plant yn cael eu clywed yn effeithiol yn y prosesau hyn, ac ni wnaed unrhyw gysylltiad amlwg â chyfleoedd llais y disgybl mewn ysgolion.

Yn y cyfamser, mewn datblygiadau sy'n canolbwyntio ar addysg, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2015a) yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, sy'n nodi pedwar diben allweddol ar gyfer y cwricwlwm, i helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddod yn:

1. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
2. Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
3. Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd, sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
4. Unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriadwyd i gyfranogiad disgyblion ystyrllon a phwrpasol fod yn nodwedd gref o'r cwricwlwm newydd a oedd yn cael ei ddatblygu.

Yn 2016, cyhoeddwyd adroddiad thematig o'r enw Canllaw Arfer Gorau ar Gyfranogiad Disgyblion gan Estyn (2016) a oedd yn archwilio nodweddion ysgolion â chyfranogiad cryf gan ddisgyblion ac yn nodi'r cyfraniad y gall ei wneud at wella ysgolion yn ogystal â'r manteision i blant a phobl ifanc eu hunain. Adroddodd Estyn (2016) fod y mwyafrif o ysgolion ar draws Cymru yn llwyddo i gefnogi ac annog arfer cyfranogiad disgyblion. Roedd prif ganfyddiadau'r adroddiad yn nodi bod cyfranogiad disgyblion yn gryf mewn ysgolion lle mae nodweddion diffiniedig yn bresennol.

Nododd yr adroddiad hefyd, rhwng Medi 2013 a Gorffennaf 2016, fod bron pob ysgol a arolygwyd yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynghorau Ysgol 2005 (Estyn 2016). Adroddodd Estyn (2016) fod cynghorau ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at wella amgylchedd dysgu'r ysgol a bod safbwyntiau disgyblion yn cael eu hystyried a'u bod yn dylanwadu ar benderfyniadau. O'u holiaduron disgyblion a gynhaliwyd cyn arolygu lleoliadau addysg, canfuwyd bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu

parchu gan staff a bod staff yn gwrando ar eu barn a hefyd yn gwneud newidiadau yn seiliedig ar eu hawgrymiadau (Estyn 2016).

Mae'r asesiad cadarnhaol hwn gan Estyn yn 2016 yn rhoi mewnwelediadau defnyddiol iawn o'r elfennau hanfodol o gyfranogiad llwyddiannus disgyblion yn y cyd-destun addysg yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar enghreifftiau o arfer gorau ar draws ysgolion yng Nghymru.

Roedd adroddiad blynyddol Estyn (2018-2019 t.33) yn nodi:

'Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion yng Nghymru wedi cryfhau eu hymrwymiad i'r [CCUHP], gyda niferoedd cynyddol yn ei ddefnyddio i danategu eu gwaith i hyrwyddo rhagoriaeth, tegwch a lles. Fel rhan o'r gwaith hwn, maent yn rhoi llais mwy dylanwadol i ddisgyblion mewn penderfyniadau am eu haddysg, o ddewis gweithgaredd dysgu hyd at gytuno ar y cymorth unigol y byddant yn ei dderbyn neu lunio polisiau ysgol. Mae tua naw o bob deg o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn teimlo bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn poeni am yr hyn y maent yn ei feddwl am yr ysgol. Fodd bynnag, mae hyn yn gostwng i tua saith o bob deg disgybl yng nghyfnod allweddol 3 ac i tua hanner y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mewn rhai ysgolion cynradd ac mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae grwpiau 'llais y disgybl' yn cael eu cyfeirio'n ormodol gan oedolion. Yn yr ysgolion hyn, er gwaethaf cyfleoedd i gyfranogi, nid yw disgyblion yn cael eu cynnwys ddigon mewn gwneud penderfyniadau am agweddau craidd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys agweddau ar addysgu a dysgu'.

Mae hyn yn adleisio canfyddiadau yn Arolwg Addysg y Ffordd Gywir y Comisiynydd Plant yn 2018 a ddangosodd mai dim ond 42% o bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd oedd yn teimlo y gallent gymryd rhan mewn penderfyniadau o gymharu â phlant mewn lleoliadau eraill, ysgolion cynradd (72%), ac ysgolion addysg arbennig (74%) (Comisiynydd Plant Cymru, 2018). Mae hefyd yn cyd-fynd ag asesiadau cynharach yn Adroddiad Amgen Cyrff Anllywodraethol Cymru ac adroddiadau Comisiynwyr Plant y DU, y gall cyfranogiad disgyblion fod yn anghyson ar draws lleoliadau addysg o ran ei gymhwyso'n ymarferol ledled Cymru (Croke a Williams 2015; Comisiynwyr Plant y DU 2015).

Mae'r Comisiynydd Plant wedi cefnogi hyrwyddo llais y disgybl ac wedi datblygu canllawiau ar gyfer ymagwedd sy'n ymwneud â hawliau plant at addysg. Ers datblygu'r 'Y Ffordd Gywir' wreiddiol, sef dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar gyfer cyrff cyhoeddus (Comisiynydd Plant Cymru 2016), mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cynhyrchu canllaw sy'n canolbwyntio ar ymagwedd hawliau plant at addysg. Fel y nodwyd yn y canllaw addysg (Comisiynydd Plant Cymru, 2017 t.10).

'Dylai hawliau plant fod wrth wraidd y lleoliad cyfan, cynllunio a chyflwyno.'

Mae'r canllaw yn nodi amcanion ymarferol i addysgwyr ar sut i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith yn unol â phob un o 5 egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Mae rhai o'r amcanion ymarferol yn uniongyrchol

berthnasol i weithredu cyfranogiad disgyblion ac mae Comisiynydd Plant Cymru yn cynnwys rhai enghreifftiau o arferion gorau o leoliadau addysg ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi cynnal ymchwil pellach i ddysgu sut y gallai plant wneud y mwyaf o'u llais drwy gynghorau ysgolion uwchradd. Canfyddiadau allweddol ei hadroddiad yn 2021 'Sut i wneud y mwyaf o leisiau pobl ifanc drwy gynghorau ysgolion uwchradd' oedd:

- Mae cynghorau ysgol yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hystyried yn bwysig ar draws lleoliadau ysgol.
- Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn gweld cynghorau ysgol yn llai gwerthfawr na phlant a phobl ifanc mewn ysgolion eraill.
- Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo'n llai abl i gymryd rhan na phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau eraill.
- Mae cyfranogiad effeithiol yn cefnogi ac yn galluogi lles pobl ifanc.
- Nid yw pobl ifanc â nodweddion gwarchoddedig bob amser yn teimlo eu bod yn cael cyfle cyfartal i gyfranogi.
- Nid yw pobl ifanc sy'n llai hyderus yn academaidd neu'n gymdeithasol yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan.
- Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo nad yw eu cyngor ysgol yn cysylltu â strwythur ehangach o gyfranogiad a'i fod yn gweithredu ar wahân i weddill cymuned yr ysgol.
- Nid yw disgyblion bob amser yn cael eu dewis ar gyfer y cyngor ysgol mewn modd sy'n cael ei weld yn deg nac mewn modd sy'n cyd-fynd â'r rheolau.
- Nid yw llawer o gyrff llywodraethu yn rhannu'r penderfyniadau a wneir gyda chynghorau ysgol yn rheolaidd ac nid yw pob corff llywodraethu ysgolion uwchradd yn dilyn rheoliadau ynghylch Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt.
- Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo eu bod yn llai abl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau am eu dysgu na'r rheini mewn lleoliadau eraill.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno astudiaethau achos defnyddiol o leoliadau addysg ledled Cymru sy'n nodi lle mae arfer orau yn bodoli mewn perthynas â chynghorau ysgolion uwchradd. Mae'n argymhell 'cyngor ysgol wych' yn unol â 5 egwyddor Y Ffordd Gywir (Comisiynydd Plant Cymru 2021). Mae'r Comisiynydd Plant hefyd wedi cyhoeddi:

- Awgrymiadau da ar gyfer cyngor ysgol wych wedi'i ysgrifennu gyda phobl ifanc. (Comisiynydd Plant Cymru N.D. a.)
- Cyfranogiad: Sut? Beth? Pam? Canllaw i Athrawon. (Comisiynydd Plant Cymru N.D. b.)
- Gwneud gwahaniaeth – canllaw person ifanc ar gyfer gweithredu.

Yn fwy diweddar mae Estyn (ND) hefyd wedi cyhoeddi eu hegwyddorion ar gyfer Cyngor Ysgol neu Grŵp Disgyblion effeithiol gan ddefnyddio'r dystiolaeth y maent wedi'i chasglu o'u hadroddiadau arolygu. Mae hyn hefyd yn cydnabod her cynrychiolaeth a nodir uchod, ac yn argymhell, bod 'cynrychiolwyr disgyblion yn dod o grwpiau amrywiol sy'n cynrychioli'r gymuned gyfan ar draws pob grŵp blwyddyn' (Estyn N.D). Mae ysgol gynradd yr Hafod hefyd wedi'i nodi fel enghraifft, astudiaeth achos rhagorol o 'ethos cynhwysol a diwylliant sy'n hybu cyfranogiad disgyblion'.

(Estyn 2020). Mae'r enghraifft hon hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ysgolion sy'n croesawu ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau at addysg.

Mae Cymru yn y broses o ddiwygio'r system addysg yn sylweddol, gyda deddfwriaeth sy'n cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018) (ADY) a hefyd cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr 3-16 oed. (Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021). Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i gyd-greu ag ymarferwyr, ac mae ei ddatblygiad wedi'i lywio gan 'ymreolaeth ysgol wrth bennu cynnwys cwricwlaidd, addysgeg plentyn-ganolog a ffocws ar yr hyn a elwir yn "sgiliau'r 21ain Ganrif" (Knight et al 2022). Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm newydd yn atgyfnerthu pwysigrwydd y ddeddfwriaeth ADY, gan egluro bod y fframwaith cyfreithiol a sefydlwyd gan y Ddeddf hon yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi'r cwricwlwm i ddarparu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant (Llywodraeth Cymru 2022a). Mae'r Ddeddf ADY (Adran 6) hefyd yn gosod dyletswydd ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i farn, dymuniadau a theimladau'r plentyn.

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu 2021 (Adran 64) yn cynnwys hybu a dysgu hawliau dynol plant gan roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Dywed Llywodraeth Cymru, (Llywodraeth Cymru 2022 a)

'Wrth ddylunio, mabwysiadu neu weithredu cwricwlwm, mae adran 64 o'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar ysgolion, lleoliadau, a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar y Hawliau'r Plentyn, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ymhlith y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu.'

Mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod mai un o egwyddorion allweddol y dull gweithredu yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu dysgu a'u profiad ysgol ehangach, gan nodi:

'Dylai dysgwyr brofi eu hawliau trwy eu haddysg a datblygu dealltwriaeth feirniadol o sut mae eu profiad addysgol yn cefnogi eu hawliau. Gall ysgolion a lleoliadau ddatblygu'r profiad hwn drwy ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Un o egwyddorion allweddol y dull hwn yw hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu dysgu a'u profiad ysgol ehangach (Llywodraeth Cymru 2022a).'

Mae'r canllawiau hefyd yn canolbwyntio ar gynnwys dysgwyr yn uniongyrchol wrth ddylunio a chyd-greu eu cwricwlwm gan awgrymu'r camau canlynol.

'Galluogi dysgwyr i wneud dewisiadau am beth a sut maen nhw'n dysgu.

Casglu adborth ansoddol ar ôl profiadau dysgu, sy'n llywio'r broses barhaus o gynllunio'r cwricwlwm.

Ystyried safbwyntiau dysgwyr yn ddyddiol yn yr ystafell ddosbarth trwy addysgeg gyfranogol.

Cynnwys dysgwyr wrth osod blaenoriaethau ar gyfer y cwricwlwm ac ar gyfer cynnwys dysgu.

Sicrhau bod adnoddau'n cael eu nodi i gefnogi cyfranogiad.

Sicrhau bod ymgynghori, dadansoddi barn ac adborth dysgwyr yn cael eu cynnwys fel camau yn y broses o gynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm.

Sicrhau bod adborth ar ddeilliannau cyfraniadau llais y dysgwr yn cael ei roi i ddysgwyr a staff a bod hyn yn cael ei gynnwys yn yr amserlenni ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm.

Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hysbysu am broses yr ysgol o ddylunio'r cwricwlwm mewn iaith a fformat hygyrch a'u bod yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan.'

Mae cyflwr presennol y gyfraith a pholisi, a strwythurau yng Nghymru ar hawliau plant a llesiant cenedlaethau'r dyfodol, yn ymddangos yn gefnogol iawn i lais y disgybl. Mae cyfranogiad plant yn thema sy'n rhedeg drwy ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru ar hawliau plant, hawliau anabledd ac ADY, ac mae hyn yn rhoi sgôp a chyfle i roi llais y disgybl yn ei gyd-destun a'i gyfoethogi.

3.2 Covid 19 a Chyfranogiad Plant mewn Gwneud Penderfyniadau

3.2.1 Cyfranogiad plant mewn gwneud penderfyniadau cenedlaethol

Mae llawer iawn o dystiolaeth ymchwil ar draws llawer o wledydd am effaith mesurau brys Covid-19 ar leoliadau addysg, ac un o effeithiau mwyaf arwyddocaol mesurau brys Covid-19 yn fyd-eang yw cau ysgolion. Mae'r diwygiadau mawr i'r system addysg y cyfeirir atynt yn yr adran uchod wedi'u rhoi ar waith yn ystod pandemig Covid-19 pan welodd lleoliadau addysg newid i addysgu brys o bell. O fis Mawrth 2020 ymlaen, bu'n rhaid i leoliadau addysg addasu i ddysgu, addysgu ac asesu ar-lein yng Nghymru ac yn rhyngwladol (OECD 2021, UNESCO 2021). Roedd plant a oedd eisoes yn agored i niwed yn destun pryder mawr. Roedd tynnu'r ysgol yn ôl fel noddfa ddiogel rhag cam-drin yn y cartref yn cadw rhai plant mewn sefyllfaoedd o fregusrwydd gyda chyfleoedd cyfyngedig i gael cymorth, (Croke a Hoffman 2021) er yng Nghymru a gwledydd eraill, wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, roedd sefydliadau addysg yn cael eu cadw ar agor i'r disgyblion mwyaf agored i niwed.

Fodd bynnag, roedd cau ysgolion wedi creu rhaniad digidol lle nad oedd rhai plant yn gallu cyrchu dyfeisiau/band eang i gefnogi eu dysgu ar-lein, gan waethygu'r anghydraddoldebau presennol mewn cyrhaeddiad addysgol. Roedd cau hefyd yn lleihau cyfleoedd plant i chwarae a chwrrd â ffrindiau (Cyngor Ewrop 2021; Eurochild 2020; Croke a Hoffman 2021). Mae effeithiau negyddol mesurau brys a chau ysgolion ar hawliau plant yn cael eu hadrodd yn fanwl gan ymchwil a gynhaliwyd gan yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant, ar gyfer Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsersonau i Blant (REOB) (Croke a Hoffman 2021). Adolygodd yr ymchwil hwn effaith Mesurau Brys Covid-19 ar hawliau plant ar draws 32 o aelod-wladwriaethau REOB. O'r ombwdsersonau plant a dderbyniodd gwynion, nododd

76% gynnydd mewn cwynion i'w swyddfeydd yn ystod anterth y pandemig. Nodwyd effeithiau negyddol ar hawliau addysg, iechyd meddwl, trais yn erbyn plant, hawl plant i chwarae, i safon byw ddigonol a chyswllt â theuluoedd. Yn wir, adroddwyd am effeithiau negyddol ar holl feysydd thematig hawliau plant (fel y'u diffinnir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn), gan gynnwys addysg. Pwysleisiodd yr ymchwil yr effeithiau negyddol ar blant â gwendidau ychwanegol a gwaethygu anghydraddoldebau presennol.

Canfyddiadau allweddol yr ymchwil ynghylch cyfranogiad plant oedd:

'Nid oedd plant yn cael eu trin fel cynulleidfa benodol at ddibenion ymgynghori, nac at ddibenion lledaenu gwybodaeth am y pandemig.

Roedd plant yn cael eu trin fel gwrthrychau'r mesurau brys yn hytrach nag fel darpar gyfranogwyr' (Croke a Hoffman 2021 t.5).

Ategir hyn gan ddatganiad gan Gyngor Ewrop mai plant oedd y 'grŵp lleiaf tebygol o gael eu hymgyngori neu o chwarae rhan fel arall yn y penderfyniadau a wneir y tu ôl i'r mesurau hyn' (Cyngor Ewrop 2021). Nododd astudiaeth fyd-eang Lundy et al (2021) hefyd mai dim ond 20% o blant oedd yn teimlo bod eu llywodraethau yn gwrando arnynt wrth wneud penderfyniadau polisi ynghylch sut i reoli argyfwng Covid-19. Fel y mynegodd Lundy et al (2021 t.278), mae plant:

'wedi codi eu pryder ynghylch diffyg parodrwydd eu llywodraethau i ystyried eu persbectif wrth wneud penderfyniadau ynghylch cau ysgolion, a sut i sicrhau eu bod yn cael mynediad i'w haddysg ar-lein.'

Mynegodd plant yn yr astudiaeth hefyd eu pryderon ynghylch diffyg parodrwydd llywodraethau i siarad â nhw'n uniongyrchol neu i roi gwybodaeth iddynt a oedd yn gyfeillgar i blant (Lundy et al 2021). Nododd astudiaeth arall a gynhaliwyd mewn 20 o wledydd gan Larkins hefyd nad oedd llawer o dystiolaeth o blant yn dylanwadu ar benderfyniadau'r sector cyhoeddus (Larkins 2020).

Adroddodd 42% o'r Ombwdsersonau Plant yn ymchwil REOB, fethiant y llywodraeth i ystyried hawliau plant mewn mesurau brys cychwynnol, ond dywedodd 69% eu bod yn cael eu hystyried fwyfwy mewn penderfyniadau dilynol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o awdurdodaethau yn ymchwil REOB a gynhaliodd Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) ar wneud penderfyniadau ynghylch datblygu Mesurau Brys, gan gynnwys mesurau sy'n effeithio ar ysgolion. Yn yr awdurdodaethau a gynhaliodd AEHP, dim ond lleiafrif a oedd yn cynnwys ymgynghori â phlant (Croke a Hoffman 2021). Un o gydrannau pwysig AEHP effeithiol yw yr ymgynghorir â phlant (REOB 2020).

Fel y dywedodd un Comisiynydd Plant:

'Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod wedi ymgysylltu â phlant ac ystyried eu barn drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau, ond ar adegau roedd safbwyntiau plant yn gwbl absennol o'r broses gwneud penderfyniadau.'

Gwnaethpwyd penderfyniadau ynghylch cau/agor ysgolion a strategaethau lliniaru ysgolion Covid-19 ar draws awdurdodaethau, i raddau helaeth heb ystyried barn plant (Croke a Hoffman 2021). Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi datgan y dylai plant gael eu cynnwys ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnynt hyd yn oed ar adegau o argyfwng, neu ar eu hôl (Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig 2012). Ymhellach, ym mis Ebrill 2020, cynghorodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn lywodraethau i ganolbwyntio ar 11 pwynt i amddiffyn Hawliau Plant. Rhif 11 oedd: 'Darparu cyfleoedd i farn plant gael ei chlywed a'i hystyried mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar y pandemig (OHCHR 2020 t.34).

3.2.2 Llais Myfyrwyr yn ystod y pandemig

Mewn astudiaeth gan Gyngor Ewrop ac UNESCO (2021) ar effaith pandemig Covid-19 ar lais myfyrwyr a adroddwyd yn Ewrop, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica, collodd mwyafrif y bobl ifanc gyfleoedd i leisio eu barn ac i ddysgu cymwyseddau i fynnu eu hawliau. Dywedodd traean o athrawon nad oedd myfyrwyr byth yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod clo. Effeithiwyd yn ddrwg ar brosiectau ymgysylltu cymunedol a gweithredu cymdeithasol (Cyngor Ewrop ac UNESCO 2021). Cafodd 52% o strwythurau llywodraethu ffurfiol fel cynghorau ysgol eu hatal. Ymhellach, roedd cynghorau ysgol yn fwy tebygol o gael eu hatal yn ystod y pandemig mewn ysgolion gyda nifer uwch o fyfyrwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Ni chafodd myfyrwyr difreintiedig yr un cyfleoedd oherwydd eu hamgylchedd cartref a mynediad digidol cyfyngedig. Hefyd, ataliwyd ychydig yn fwy o gynghorau ysgol mewn ysgolion gwladol o gymharu ag ysgolion preifat (Cyngor Ewrop ac UNESCO 2021).

Cynyddodd arferion fel cwisiau ar-lein a phleidleisiau dosbarth i hyrwyddo llais myfyrwyr gyda'r newid i addysgu o bell ac mae ystod o astudiaethau achos yn dangos bod rhai ysgolion yn greadigol wrth ddyfeisio cyfleoedd ar gyfer eu myfyrwyr. Fodd bynnag, roedd athrawon o'r farn bod trosglwyddo gweithgareddau llais y myfyrwr i'r amgylchedd digidol yn rhywbeth o reidrwydd yn hytrach nag yn rhywbeth y byddent yn ei ddewis. Roedd yr athrawon yn ymwybodol o'r rhaniad digidol a oedd yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion difreintiedig nad oedd ganddynt fynediad i dechnoleg. Ar ben hynny, roedd cyfathrebu ar-lein yn heriol i lawer o fyfyrwyr a chododd anghydraddoldebau oherwydd bod is-grwpiau o gyfoedion yn arwain gweithgareddau llais myfyrwyr yn bennaf. Yn ddiddorol, mae'r adroddiad yn nodi bod llwyddiant llais myfyrwyr yn dibynnu ar fondiau 'byd go iawn' presennol y disgyblion. Canfuwyd hefyd mai anaml yr oedd ysgolion yn defnyddio technoleg ddigidol i gynnwys plant mewn penderfyniadau llywodraethu ysgol.

Adroddodd astudiaeth Cyngor Ewrop ac UNESCO (2021) mai'r ysgolion mwyaf gwydn, hyd yn oed yn achos y pandemig, a oedd yn parhau â phrosiectau llais myfyrwyr, oedd ysgolion sydd:

- Eisoedd wedi cael mynediad i dechnoleg ddibynadwy a seilwaith digidol cyflym.
- Disgyblion ag amgylcheddau cartref oedd â mynediad i ofod preifat, cysylltiadau dibynadwy, cefnogaeth i fynd i'r afael â materion technolegol ac anogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau llais myfyrwyr.

- Ysgolion â'r diwylliannau dinesig cryfaf, gyda myfyrwyr wedi arfer rhoi eu barn, athrawon a oedd wedi arfer â chyflwyno gweithgareddau llais myfyrwyr ac â chysylltiadau da â sefydliadau cymunedol.
- Arweinwyr carismatig, ymroddedig a brwdfrydig (athrawon fel arfer, neu fyfyrwyr rhagorol).
- Perthynas gref sydd eisoes yn bodoli rhwng athrawon a myfyrwyr.

Dangosodd yr astudiaeth:

'Nid yw prosiectau llais myfyrwyr llwyddiannus yn codi mewn argyfwng, ond yn hytrach maent yn fwy gwydn i'r argyfwng gan dynnu ar fondiau emosiynol cofiadwy o gymuned ddosbarth agos, gyda'r disgwyliad y bydd gweithgareddau ar-lein ymhen amser yn ailgysylltu â'r byd cymdeithasol "bywyd go iawn" (Cyngor Ewrop ac UNESCO 2021 t. 19).'

Adlewyrchodd yr astudiaeth fodd bynnag y bu colled gyffredinol mewn cyfleoedd a dysgu ar lais y myfyrwyr yn ystod y pandemig ac ni ddylai hyn barhau i'r cyfnod adfer, a bod yn rhaid cefnogi myfyrwyr difreintiedig yn benodol i siarad allan (Cyngor Ewrop ac UNESCO 2021).

3.2.3 Ymateb o Gymru a chyfranogiad plant mewn gwneud penderfyniadau yn ystod y pandemig

Os byddwn yn ystyried yr ymateb yng Nghymru, ar ddechrau'r pandemig, prin oedd cyfranogiad plant yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch agor/cau ysgolion neu strategaethau lliniaru. Fodd bynnag, datblygodd Comisiynydd Plant Cymru (CPC ND) Hyb Gwybodaeth Coronafeirws i blant ac ym mis Mai 2020 dyluniodd arolwg ar-lein hefyd i ymgynghori â phlant am eu barn ar eu profiad o'r pandemig (Comisiynydd Plant Cymru 2020/2021).

Cymerodd 24,000 o blant ran yn yr arolwg a ddosbarthwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, Llywodraeth Cymru, Plant yng Nghymru a Senedd Ieuenctid Cymru. (Cafodd yr arolwg ar-lein ei ailadrodd ym mis Ionawr 2021 gyda bron i 20,000 o blant). Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod barn plant wedi dylanwadu ar benderfyniadau'r llywodraeth (Croke 2022).

Er enghraifft, yn y dychweliad graddol ym mis Mehefin/Gorffennaf 2020 i ysgolion, roedd ffocws penodol ar gefnogi disgyblion cynradd Blwyddyn 6, a gafodd ei lywio'n uniongyrchol gan ganfyddiadau'r arolwg, gan fod y grŵp oedran hwn wedi nodi sawl pryder. Roedd modd gwneud hyn wrth i Gomisiynydd Plant Cymru rannu canfyddiadau cynnar yr arolwg â Llywodraeth Cymru, hyd yn oed cyn cyhoeddi unrhyw adroddiad (Croke 2022).

Trefnwyd dwy sesiwn holi ac ateb hefyd gyda Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru a phobl ifanc, ynghylch asesiadau ysgol. Daeth y rhain oherwydd yr ymgysylltiad cadarnhaol â'r Comisiynydd Plant Cymru ar y prosiect arolwg. Ysbrydolwyd cyfathrebu uniongyrchol ag ymgeiswyr arholiadau gan Lywodraeth Cymru (gyda chynghor a mewnbwn Comisiynydd Plant Cymru), a chan Cymwysterau Cymru, gan y digwyddiadau ymgysylltu hyn. Cafwyd cynadleddau i'r wasg hefyd ar gyfer pobl ifanc a chymerwyd deiseb person ifanc i ystyriaeth gan Senedd Cymru fel nad oedd graddio yn dibynnu ar arholiadau (Croke 2022).

Wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, adroddodd Comisiynydd Plant Cymru fod asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau Cabinet Llywodraeth Cymru a bod yr asesiadau hyn yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys barn a phrofiadau plant o'r arolygon gyda phlant. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

'Safbwynt Llywodraeth Cymru weithiau yw 'nad oes amser i ymgynghori', ond ymgynghorwyd â phlant drwy arolygon a Holi ac Ateb Gweinidogol er enghraifft, sydd wedi dylanwadu ar AEHPau (Croke 2021).

Ymgynghorodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg y Senedd hefyd â phlant fel rhan o'u hymchwiliad i Covid-19 ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru gynnal AEHP (Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Senedd, 2020). Mae hyn yn cyflwyno dystiolaeth bellach o bwyllgor seneddol cryf yn parhau i ystyried barn plant a'u hawliau fel rhan o'u rôl graffu yn ystod y pandemig. Pwysleisiodd adroddiad REOB bwysigrwydd craffu gan gomisiynwyr/ombwdsersonau plant, pwyllgorau seneddol a chyrrff anllwydraethol fel allwedd i leihau effeithiau negyddol mesurau brys (Croke & Hoffman 2021).

Ym mis Ionawr 2022, cyflwynodd cynrychiolwyr o Banel Ieuenctid Comisiynydd Plant Cymru, sydd hefyd yn rhan o rwydwaith o bobl ifanc o bob rhan o Ewrop o'r enw ENYA, ganfyddiadau eu hymchwil ar sut i ymateb i bandemigau yn y dyfodol, i'r Prif Weinidog (Comisiynydd Plant Cymru 2022).

Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod asesiad o'r effaith ar hawliau plant nac ymgynghoriad â phlant ar y penderfyniad ym mis Ionawr 2022 i gadw ysgolion ar agor yng Nghymru (Llywodraeth Cymru N.D) ac mae hyn yn adlewyrchu ymchwil REOB ac ymchwil cynharach gan Hoffman y gall defnyddio AEHPau ac ymgynghori â phlant yn aml fod yn ad hoc ac yn anghyson (Hoffman, 2020; Croke a Hoffman 2021).

Er ei bod yn hollbwysig mai dim ond pan fetho popeth arall y caiff ysgolion eu cau (WHO Ewrop 2021) mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn dangos ei bod wedi cadw at ei dyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ac yn unol â'i hymrwymiad yn y Cynllun Plant, yn cyhoeddi eu dadansoddiad o hawliau plant yn agored ac yn dryloyw ynghylch eu penderfyniadau. Mae profiad y pandemig yn awgrymu bod angen i gyfranogiad plant ym mhroses gwneud penderfyniadau'r llywodraeth gael ei wreiddio'n well, fel bod plant yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnynt.

Mae adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022 t.17) yn bendant o effaith Covid 19 ar iechyd meddwl a llesiant ar blant, gan nodi:

Mae'r pandemig COVID-19, a mesurau ymateb i reoli trosglwyddiad y feirws wedi effeithio ac amharu'n fawr ar fywydau teuluol, cymdeithasol, economaidd ac addysgol plant a phobl ifanc yng Nghymru a thrwy'r rhain y ffactorau amddiffynnol allweddol ar gyfer lles meddwl. Mae nifer o grwpiau wedi'u nodi fel rhai sydd â risg uwch o effeithiau negyddol.

Cadarnhaodd hyn ganfyddiadau ymchwil REOB (2021) bod y pandemig wedi cael effeithiau negyddol ar blant â gwendidau ychwanegol a gwaethygu

anhydraddoldebau presennol. Un o argymhellion Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022 t.11) yw:

Gwranddo ar farn, blaenoriaethau a phrofiadau pobl ifanc a'u gwerthfawrogi a rhoi cyfle i bobl ifanc rannu eu straeon a'u profiadau o'r pandemig. Sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol pobl ifanc wrth ddylunio a darparu'r ymateb pandemig parhaus, addysg, ac ymyriadau i gefnogi adferiad.

Mewn argyfyngau yn y dyfodol, cryfhau'r gwaith o nodi a lliniaru effeithiau ar iechyd meddwl a llesiant a phlant a phobl ifanc, gan ddefnyddio offer fel Asesiad o'r Effaith ar Les Meddwl (AELM) ac Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP).

Mewn argyfyngau yn y dyfodol, darparu mecanweithiau i sicrhau bod **llais a barn pobl ifanc ar sut mae'r sefyllfa frys yn effeithio ar eu bywydau** yn cael eu clywed a bod pobl ifanc yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu polisi, ymyriadau, gwybodaeth a chyfathrebu.

3.2.4 Ar lefel ysgol

Yn fwyaf diweddar, mewn gwerthusiad a gynhaliwyd gan Estyn (2022), amlygwyd effeithiau mwyaf arwyddocaol y pandemig ar blant ysgol. Roedd y rhain yn effeithiau ar ddysgu plant, megis dirywiad amlwg mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd ac mewn ysgolion uwchradd, rhuglder plant a'u tueddiad i siarad Cymraeg. Mae'r adroddiad yn awgrymu y gellir dadlau bod y broblem hirdymor mewn perthynas â'r bwlbch mewn perfformiad rhwng disgyblion tlotach a'u cyfoedion wedi gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig. Mae adroddiad Estyn hefyd yn rhoi sylwadau ar y dull amrywiol o weithredu'r cwricwlwm newydd ar draws ysgolion.

Mae adroddiad Estyn 2022 wedi nodi effaith bryderus y pandemig ar yr absenoldeb parhaus ymhlith llawer o ddisgyblion a llawer o blant nad ydynt yn dychwelyd i'r ysgol ers y pandemig. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod bod llawer o ysgolion wedi gwella eu cyfathrebu â theuluoedd yn ystod cyfnodau clo ac mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth o'r heriau yr oedd cymunedau sy'n gysylltiedig ag ysgolion yn eu hwynebu.

Mewn perthynas â llesiant, mae ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn chwarae rhan hollbwysig yn natblygiad y plentyn yn ogystal ag ymdeimlad o gysylltedd cymdeithasol (Langford et al 2011). Adroddwyd bod cyfnodau clo a chaethiwed yn y cartref yn gwaethygu anawsterau iechyd meddwl plant (ICC 2022, Croke a Hoffman 2021; Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Senedd 2020). Trwy gyswllt rhithwir parhaus ac addasu arferion addysgu, ceisiodd rhai ysgolion liniaru rhai o'r niwed a achosir gan y pandemig (Swyddfa Ystadegau Gwladol ND).

Nododd adroddiad Estyn (2022) gynnydd yn y galw am gymorth llesiant ac iechyd meddwl. Dywedodd y Prif Arolygydd Addysg fod hwn yn faes lle'r oedd ysgolion yn ymateb yn gryf gyda llawer o ysgolion uwchradd yn arbennig yn ymdrechu i gynnig cefnogaeth gref i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol penodol (Estyn 2022). Cydnabuwyd bod rhai ysgolion yn cyflwyno darpariaeth ehangach.

Cynhaliwyd ymchwil hefyd yng Nghymru i ddysgu am effaith y pandemig ar iechyd meddwl a boddhad bywyd plant 10-11 oed. Roedd yr ymchwil hwn, 'yn nodi lefel uchel o gysylltedd ysgol cyn ac ar ôl y pandemig, heb unrhyw dystiolaeth o newid mewn graddfeydd mewn perthnasoedd athrawon, perthnasoedd disgyblion neu gyfranogiad disgyblion ym mywyd yr ysgol' (Moore et al 2022). Mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol yr oedd yn ymddangos bod plant o'r grŵp oedran hwn yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cysylltu â'r ysgol ac mae Moore et al (2022) yn dadlau y gallai hyn fod wedi atal cynnydd mwy serth mewn anawsterau iechyd meddwl.

Yn ystod y pandemig dechreuodd y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl (Llywodraeth Cymru 2021b) ei broses o weithredu ac mae'n ymddangos bod llai o bwyslais wedi bod ar 'dal i fyny' a mwy ar gefnogi adferiad emosiynol plant o'r pandemig, e.e. gweler rhaglenni Llywodraeth Cymru Haf o Hwyl a Gaeaf o Hwyl, rhan o gyfres ehangach o raglenni o dan 'Adnewyddu a Diwygio'. Cyflwynwyd hefyd y cynllun adfer 'adnewyddu a diwygio' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021 sy'n nodi sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu helpu'r system addysg i wella yn dilyn pandemig Covid-19 (Llywodraeth Cymru 2021c) gyda'r brif flaenoriaeth yn canolbwyntio ar les plant. Fodd bynnag, mae Prif Arolygydd Estyn (2022) wedi rhybuddio y bydd galw cynyddol am gymorth emosiynol ac iechyd meddwl, a bydd hyn yn heriol i ysgolion sydd dan bwysau cynyddol ac, yn wir, gwasanaethau eraill.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyfathrebu'n gryf yn ystod y pandemig, ynghylch pwysigrwydd cyfranogiad plant yn eu hysgol/leoliad addysg, a chafwyd datganiad gan Lywodraeth Cymru (2020) ar gyfranogiad:

Mae gan gyfranogiad gysylltiadau pwysig â lles ac mae yn gwasanaethu i fodloni hawliau plant i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn eu hysgol neu leoliad. Mae'n bwysig, felly, bod ysgolion a lleoliadau yn hwyluso parhad trefniadau cyfranogiad. Bydd angen i ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o drefniadau ar gyfer hwyluso cyfranogiad parhaus....).

Fodd bynnag, prin yw'r ymchwil ar hyn o bryd ynghylch effaith Covid-19 neu fanylion ynghylch sut ac a oedd plant yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn y penderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt ar lefel ysgol ac a ystyriwyd eu barn.

3.3 Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth

Nodwyd sawl agenda fel rhai sy'n gwasanaethu llais y disgybl, fodd bynnag, nodwyd mai gwireddu hawliau'r plentyn oedd yr elfen fwyaf amlwg a chyffredin yn yr adolygiad o lenyddiaeth a'r amgylchedd cyfraith a pholisi ar gyfer llais y disgybl yng Nghymru. Er gwaethaf hyn, nid yw'r cysylltiad â hawliau dynol yn gyffredinol, ac addysg hawliau dynol, bob amser yn cael ei wneud yn glir. Mae Deddf Cwricwlwm ac Aseu 2021 a'r canllawiau cysylltiedig wedi'u nodi fel cyfle clir i fwrw ymlaen ag adfywio llais y disgybl. Fodd bynnag, bydd agendâu pwysig eraill ar gyfer gyrru datblygiadau llais y disgybl yn eu blaen, megis gwreiddio hawliau mewn dulliau ysgol gyfan, hyfforddiant athrawon/DPP a gwneud penderfyniadau llywodraeth leol/cenedlaethol yn gofyn am ddatblygu polisi sydd y tu allan i'r cwricwlwm.

O'r adolygiad o bolisi a deddfwriaeth yn y cyd-destun Cymreig, mae'n dod i'r amlwg bod sawl label ar gyfer 'llais y disgybl' (e.e. 'Llais y Disgybl', 'Llais y Myfyriwr', 'Llais y Dysgwr', 'Cyfranogiad Disgyblion') a hefyd diffiniadau amrywiol o'r hyn y mae hyn yn ei olygu i addysg. Ategir hyn gan ymchwil diweddar a wnaed gan Murphy et al yn 2021 gydag athrawon y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru a rannodd ddealltwriaeth wahanol o'r syniad a'r weithred o gyfranogiad fel y mae'n berthnasol i'r plant y maent yn eu haddysgu. Dangosodd yr adolygiad o bolisi a deddfwriaeth hefyd y bu symudiad cyson tuag at, a hefyd ymrwymiad a wnaed yn Adroddiad Cydymffurfiaeth Cynllun Plant Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2018-2020 t.420) i ddatblygu 'strategaeth gyfranogiad diwygiedig' ond nad yw'n ymddangos bod strategaeth o'r fath yn bodoli eto, neu os yw'n bodoli, ei bod ar gael yn hawdd.

Nododd yr adolygiad hefyd fod adnoddau ar gyfranogiad disgyblion yn dameidiog ac yn anodd dod o hyd iddynt. Nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn cefnogi casgliad o adnoddau a chanllawiau ar gyfer addysgwyr a gefnogwyd gan wefan llais y disgybl rhwng 2008 a 2014. Mae Comisiynydd Plant Cymru ac Estyn wedi datblygu adnoddau sy'n ddefnyddiol wrth roi cyngor ar arfer orau. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod fframwaith monitro cydlynol ar gyfer monitro gweithrediad llais y disgybl ledled Cymru.

Mewn perthynas â chyfranogiad plant yn y broses o wneud penderfyniadau yn ystod y pandemig, dangosodd yr adolygiad na ymgynghorwyd â'r rhan fwyaf o blant ar ddechrau'r pandemig ynghylch penderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt (e.e. cau ysgolion). Fodd bynnag, arweiniodd sawl asiantaeth (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) waith cadarnhaol i sicrhau bod hawl plant i gael eu clywed mewn penderfyniadau cenedlaethol yn cael ei barchu. Ar lefel ysgol, adroddodd astudiaeth Cyngor Ewrop ac UNICEF (2021), mewn perthynas â llais myfyrrwyr, fod y rhan fwyaf o bobl ifanc wedi colli allan ar eu cyfle i gael eu clywed ar lefel ysgol. Cydnabuwyd hefyd bod llais y myfyrrwyr yn parhau'n fwy llwyddiannus lle'r oedd eisoes wedi'i wreiddio fel rhan o ethos yr ysgol cyn y pandemig.

Mae'r rhain i gyd yn ganfyddiadau pwysig mewn perthynas â hyrwyddo datblygiad llais y disgybl yng nghyfnod adferiad Covid-19 yng Nghymru. Nododd yr adolygiad na fu unrhyw ymchwil i effaith Covid-19 ar llais y disgybl ar lefel ysgol yng Nghymru, a dyna pam mae pwysigrwydd i'r ymchwil empirig a drafodwyd yn Adran 4 i ddatblygu dealltwriaeth bellach o gefnogi llais y disgybl yn y cyfnod ar ôl Covid.

Nod cam nesaf yr ymchwil hwn oedd dysgu a gafodd gweithgareddau llais y disgybl eu heffeithio'n negyddol gan y pandemig. Mae hefyd yn coladu enghreifftiau o arfer gorau, lle mae ysgolion wedi parhau i rymuso plant yn llwyddiannus i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, gan roi gwersi gwerthfawr ar gyfer pandemigau yn y dyfodol.

4 Dadansoddiad o ganfyddiadau empirig

4.1 Arolwg Ar-lein

Fel yr amlinellwyd yn Adran 2.2, gwahoddwyd addysgwyr i ymateb i arolwg byr ar-lein ynghylch effaith Covid 19 ar weithgareddau llais y disgybl mewn lleoliadau ysgol. Mae'r dadansoddiad yn nodi ymatebion carfan gyfan ac ymatebion wedi'u dadansoddi yn ôl math o ysgol, (h.y. cynradd ac uwchradd), a rhanbarth (h.y. GWE ac ysgolion Partneriaeth Canolbarth Cymru [Gogledd a Chanolbarth Cymru] a Chonsortium Canolbarth y De, Gwasanaeth Cyflawniad Addysg, Partneriaeth, ysgolion Castell-nedd Port Talbot [De Orllewin a Dwyrain Cymru]).


Fel rhan o'r arolwg ar-lein roedd cyfle i ychwanegu sylwadau ychwanegol mewn ymateb i ddau gwestiwn penagored. O'r ymatebion hyn, casglwyd tystiolaeth ansoddol i ychwanegu cyd-destun i'r canfyddiadau meintiol.

Mae'r arolwg yn gofyn i gyfranogwyr fyfyrion ar gyfnod o amser o'r cyfnod cyn-bandemig, hyd at y pandemig, gyda chyfnodau clo Covid-19 pan gaewyd ysgolion, i ysgolion yn ailagor gyda chyfyngiadau swigod dosbarth a blwyddyn. (Fel y nodir yn yr Adran Fethodoleg uchod, n = 99 ym mhob un o'r ffigurau a amlinellir isod).


4.1.1 Gweithgareddau Cyfranogol/Llais y Disgybl Cyn y Pandemig

Gofynnodd Cwestiwn 1 o'r arolwg i'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil pa fath o weithgareddau cyfranogol/llais y disgybl oedd yn digwydd yn yr ysgol cyn y pandemig. Roedd y cwestiwn yn gofyn i'r cyfranogwyr wahaniaethu rhwng gweithgareddau cyfranogol ffurfiol ac anffurfiol. Ystyr 'ffurfiol' yw o fewn strwythurau fel cynghorau ysgol neu bwyllgorau ac ystyr 'anffurfiol' yw prosiectau neu weithgareddau annibynnol sy'n cefnogi llais y disgybl ar lefel dosbarth neu grŵp arall ond y tu allan i strwythurau ffurfiol. Gweler Ffigurau 1, 2, a 3 isod.


Ffig 1 , Cyn y Pandemig, sut fath o weithgareddau cyfranogi / Llais y Disgybl oedd yn digwydd yn eich ysgol? (C1)



Ffig 2 , Cyn y Pandemig, sut fath o weithgareddau cyfranogi / Llais y Disgybl oedd yn digwydd yn eich ysgol? (C1)



Ffig 3 , Cyn y Pandemig, sut fath o weithgareddau cyfranogi / Llais y Disgybl oedd yn digwydd yn eich ysgol? (C1)



Mae Ffigur 1 uchod yn dangos, mewn 80%+ o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg, bod cyfuniad o weithgareddau cyfranogol/llais y disgybl ffurfiol ac anffurfiol, yn cael eu darparu cyn y pandemig. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng ysgolion yn hwyluso gweithgareddau cyfranogol yng Ngogledd/Canolbarth a De Cymru a rhwng cynradd ac uwchradd (Gweler Ffigurau 2 a 3).


Mae'n werth nodi nad oedd unrhyw ysgolion uwchradd yn datgan eu bod yn darparu gweithgareddau ffurfiol yn unig ac nad oedd bron yr un ysgol gynradd wedi datgan eu bod yn darparu gweithgareddau anffurfiol yn unig (Gweler Ffigur 3).

4.1.2 Effaith cyfnodau clo/ynysu ar Weithgareddau Cyfranogol/Llais y Disgybl


Roedd cwestiwn 2 yn yr arolwg ar-lein yn ystyried pa weithgareddau cyfranogol/gweithgareddau llais y disgybl a gafodd eu cwtogi neu eu cyfyngu yn ystod cyfnodau clo/ynysu. Roedd y cyfranogwyr a ddatganodd eu bod yn darparu gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol yn Ffigurau 2 a 3 uchod yn gallu penderfynu a oedd y naill neu'r llall neu'r ddau fath o weithgareddau cyfranogol wedi'u cwtogi yn ystod y cyfnod clo. Mae Ffigurau 4, 5, 6 (isod) yn dangos pa weithgareddau a gafodd eu cwtogi neu eu cyfyngu gan y cyfnodau clo ac ynysu. Mae'r Ffigurau'n dangos bod

pob math o weithgareddau cyfranogol wedi'u cwtdgi neu eu cyfyngu gan y cyfnodau cloi / ynysu? (C2)


Ffig 4, Pa rai o'r gweithgareddau hyn a gafodd eu cwtdgi neu eu cyfyngu gan y cyfnodau cloi / ynysu? (C2)



Ffig 5, Pa rai o'r gweithgareddau hyn a gafodd eu cwtdgi neu eu cyfyngu gan y cyfnodau cloi / ynysu? (C2)



Ffig 6, Pa rai o'r gweithgareddau hyn a gafodd eu cwtdgi neu eu cyfyngu gan y cyfnodau cloi / ynysu? (Q2)



Dengys Ffigur 4, ar draws yr holl ysgolion, fod gweithgareddau ffurfiol (bron i 40%) wedi'u heffeithio'n fwy na gweithgareddau anffurfiol (llai na 10%). Mae Ffigur 5 yn dangos unwaith eto yr effeithir yn fwy ar weithgarwch ffurfiol nag ar weithgarwch anffurfiol a bod hyn yn gyson yng Ngogledd/Canolbarth a De Cymru. Dengys Ffigur 6 fod gweithgareddau ffurfiol wedi'u cwtdgi'n fwy arwyddocaol mewn ysgolion cynradd o gymharu ag ysgolion uwchradd. Gall hyn fod oherwydd nad yw plant oed ysgol gynradd mor gymwys i ymateb yn syth i ofynion gweithgareddau ar-lein ac mae'n bosibl iawn fod y cyfyngiad ar weithgarwch anffurfiol yn yr ysgolion uwchradd oherwydd trefn ar-lein fwy ffurfiol – sy'n golygu y gallai'r cyfleoedd ar gyfer trafodaethau anffurfiol ac adborth fod wedi bod yn fwy cyfyngedig.


Mae Ffigur 6 hefyd yn dangos bod 50% o ysgolion cynradd a 67% o ysgolion uwchradd wedi dweud bod gweithgareddau cyfranogol ffurfiol ac anffurfiol wedi'u cwtdgi. O ystyried y cyfnod cyn-bandemig, roedd dros 80% o ysgolion cynradd a

90% o ysgolion uwchradd yn cynnal gweithgareddau llais y disgybl ffurfiol ac anffurfiol, gallwn weld maint effaith y cyfnod clo.


4.1.3 Parhau â gweithgareddau cyfranogol/llais y disgybl yn ystod y cyfnodau clo/ynysu

Gofynnodd cwestiwn 3 yn yr arolwg ar-lein i addysgwyr a oeddent wedi dod o hyd i ffyrdd o gadw gweithgareddau cyfranogol/llais y disgybl i fynd yn ystod y cyfnodau clo/ynysu. Gweler Ffigurau 7, 8, 9 isod.


Ffig 7, A wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd yn ystod y cyfnodau clo / ynysu? (C3)



Ffig 8, A wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd yn ystod y cyfnodau clo / ynysu? (C3)



Ffig 9 A wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd yn ystod y cyfnodau clo / ynysu? (C3)




Mae'r ymatebion i gwestiwn 3 yn arbennig o ddiddorol o ystyried yr ymatebion i gwestiwn 2. Er ein bod wedi gweld, ledled Cymru ac yn y sectorau addysg cynradd ac uwchradd, fod ymatebwyr wedi nodi cwtogi ar eu gallu i ddarparu gweithgareddau cyfranogol/gweithgareddau llais y disgybl, dywedodd bron i 70% o ysgolion eu bod wedi dod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd yn ystod y cyfnod clo. Er nad oes gennym dystiolaeth, efallai mai dehongliad o hyn yw, pe na bai ymatebwyr wedi dod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd, y byddai llawer mwy o gwtogi ar weithgareddau cyfranogol/llais y disgybl a adroddwyd yng nghwestiwn 2 uchod.


4.1.4 Gweithgareddau Cyfranogol/Llais y Disgybl a gwtogwyd neu a gyfyngwyd gan y rheoliadau (swigod blwyddyn/dosbarth) a roddwyd ar ysgolion ar ôl iddynt dychwelyd i'r ystafell ddosbarth.

Gofynnodd Cwestiwn 4 i addysgwyr os cafodd gweithgareddau cyfranogol/llais y disgybl eu cwtogi neu eu cyfyngu gan y rheoliadau (swigod blwyddyn/dosbarth) a roddwyd ar ysgolion pan wnaethant dychwelyd i'r ystafell ddosbarth. Gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn canfod sut yr effeithiodd y cyfyngiadau diweddarach ar weithgareddau cyfranogol/llais y disgybl. Gweler Ffigurau, 10, 11, 12.


Ffig 10 , Pa rai o'r gweithgareddau isod gafodd eu cwtogi neu eu cyfyngu gan y rheoliadau (swigod blwyddyn/dosbarth ayyb) sydd wedi eu gosod ar ysgolion ers dychwelyd i'r dosbarth? (C4)



Ffig 11 , Pa rai o'r gweithgareddau isod gafodd eu cwtogi neu eu cyfyngu gan y rheoliadau (swigod blwyddyn/dosbarth ayyb) sydd wedi eu gosod ar ysgolion ers dychwelyd i'r dosbarth? (C4)



Ffig 12 , Pa rai o'r gweithgareddau isod gafodd eu cwtogi neu eu cyfyngu gan y rheoliadau (swigod blwyddyn/dosbarth ayyb) sydd wedi eu gosod ar ysgolion ers dychwelyd i'r dosbarth? (C4)




Mae Ffigurau 10, 11, 12 yn dangos bod gweithgareddau ffurfiol unwaith eto wedi'u cwtogi i raddau helaethach gyda bron i 65% o'r holl ysgolion y gwnaed arolwg arnynt yn nodi bod gweithgareddau ffurfiol wedi'u cwtogi. Mae tystiolaeth o'r ymatebion ansoddol (gweler isod) yn dangos bod ysgolion wedi cael trafferth gyda chynghorau ysgol traws-flwyddyn parhaus gan roedd cael cynrychiolwyr o sawl swigen ar gynghorau ysgol er enghraifft, yn broblematig. Mae edrych yn ddyfnach i mewn i'r

ffigurau yn dangos i ni, yn ddiddorol, eto, yr effeithiwyd ar ysgolion cynradd (71%) yn fwy amlwg nag ysgolion uwchradd (25%) gyda gweithgareddau cyfranogol ffurfiol yn cael eu cwtdogi neu eu cyfyngu'n fwy arwyddocaol. Mae'n bosibl bod hyn eto'n awgrymu bod plant oed ysgol gynradd wedi'i chael yn fwy anodd wrth drosglwyddo i weithgareddau llais y disgybl ar-lein.


4.1.5 Ffyrdd o gefnogi parhad gweithgareddau cyfranogol yn ystod rheoliadau Covid 19 (swigod blwyddyn / dosbarth)

Gofynnodd cwestiwn 5 yn yr arolwg i addysgwyr a oeddent wedi dod o hyd i ffyrdd o barhau â gweithgareddau cyfranogol yn ystod y rheoliadau Covid, yn ystod gweithrediad y swigod blwyddyn / dosbarth. Gweler Ffigurau, 13, 14, 15.


Ffig 13, A wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd tra o dan reoliadau covid? (C5)



Ffig 14, A wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd tra o dan reoliadau covid? (C5)



Ffig 15, A wnaethoch chi ddod o hyd i ffyrdd o gadw pethau i fynd tra o dan reoliadau covid? (C5)



O gymharu'r ymatebion yn y cwestiwn hwn â Ch3 yn yr arolwg ar-lein, mae'n galonogol bod ymatebwyr yn teimlo eu bod hefyd wedi gallu cadw pethau i fynd tra o dan y rheoliadau Covid yn yr ysgol. Mae cyfran yr ymatebion cadarnhaol a negyddol o bob rhan o ranbarthau Cymru yn debyg. Ymhellach, caewyd rhywfaint ar y bwch

rhwng ymatebion cynradd ac uwchradd rhwng y cyfnod clo a'r cyfnod dychwelyd i'r ysgol mewn swigen, a oedd yn rhan o gyfyngiadau Covid-19. Mae ymatebion ansoddol yn nodi bod ysgolion cynradd yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio systemau ar-lein wrth i amser fynd rhagddo yn ystod y pandemig.

4.2 Dadansoddiad o gwestiynau penagored

Rhoddodd y cwestiynau penagored (6 a 7) yn yr arolwg ar-lein wybodaeth ddefnyddiol am dulliau a weithiodd yn arbennig o dda wrth helpu i barhau â gweithgareddau cyfranogol neu lais y disgybl. Mae'r adran hon yn adrodd ar ddata o'r cwestiynau penagored.

Adroddodd hanner yr holl ysgolion fod ganddynt agenda cynhwysol cyn pandemig Covid-19.

Dywedodd un arweinydd ysgol:

'roedd gennym ni agenda wirioneddol gynhwysol nad oedd wedi'i chyfyngu i gyfranogiad yr ychydig. Cymerodd hyn amser i'w sefydlu i ddechrau, ac nid yw'n switsh y gallwn ei droi ymlaen'. (PT1)

Pwysleisiodd arweinydd arall pa mor bwysig yw hi i lais y disgybl fod yn rhan annatod o'r lleoliad addysg:

'Rwy'n meddwl ei fod yn rhan annatod o unrhyw leoliad addysgol, ond i ni yn arbennig, mae angen i'n cymuned gydweithio'n eithaf gyda ni a chan yr ysgol... y disgyblion eu hunain a'r teuluoedd, y llywodraethwyr, y gymuned ehangach ac wrth galon hynny, elfen llais y disgybl ohoni a'u gallu i ddylanwadu ar yr hyn a wnawn fel ysgol.' (PT12)

Ymhellach, dywedodd arweinydd ysgol arall na ddylai lais y disgybl fod yn ymarfer ticio blychau yn unig, ond mae'n rhaid i addysgwyr wrando o ddifrif ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddweud wrthynt:

'Llais y disgybl, mae'n fwy na bod gan y disgyblion lais, mae yn y disgyblion yn dweud ein bod ni yn eu clywed nhw. Mae Llais y Disgybl fel gair gwefr nawr, ond byddai ein plant yn dweud ein bod yn clywed, yn gwrando, nid ticio blwch yn unig yr ydym' (ST8)

Fodd bynnag, dywedodd arweinwyr ysgolion fod newidiadau staffio ac absenoldebau oherwydd Covid-19 wedi effeithio ar eu gallu i redeg eu cyngor ysgol. Dywedodd ysgolion eu bod wedi gorfod diddymu cynghorau etholedig ysgol gyfan oherwydd y cyfyngiadau, fodd bynnag, roedd llais y disgybl/grwpiau llais y disgybl o ddydd i ddydd yn aml yn cael eu cefnogi o fewn dosbarthiadau ac yn cael eu bwydo i weddill yr ysgol.

Datgelwyd o'r ymatebion ansoddol bod chwarter yr ysgolion wedi llwyddo i barhau i gefnogi a hyrwyddo llais y disgybl yn ystod y pandemig, trwy dulliau ar-lein neu fecanweithiau eraill. Er ein bod yn cydnabod bod y data'n adlewyrchu bod y mwyafrif o ysgolion wedi'i chael yn anodd parhau â gweithgareddau'n llwyddiannus, mae enghreifftiau o'r data ansoddol wedi'u coladu isod i fyfyrion ar rai o'r dysgu a'r dulliau

cadarnhaol o barhau â llais y disgybl a gweithgareddau cyfranogol yn ystod y pandemig.

4.2.1 Addasu i dechnolegau ar-lein

Dywedodd arweinwyr ysgolion eu bod wedi addasu cyn gynted â phosibl wrth i'r pandemig daro i addasu i fecanweithiau ar-lein i gefnogi llais y disgybl. O ran sicrhau barn disgyblion, roedd ysgolion yn gallu cael adborth disgyblion trwy amrywiaeth o lwyfannau ar-lein. Soniodd un arweinydd ysgol am sut yr oedd yn ceisio uwch-sgilio mor gyflym â phosibl:

'Wrth i ni uwch-sgilio'n gyflym, fel ysgol ac fel athrawon, defnyddiom arolygon Google Form gyda disgyblion i gasglu eu barn ar y dulliau a'r technolegau newydd a oedd yn cael eu defnyddio er mwyn mireinio'r ddarpariaeth yn ystod y 'cyfnodau clo' diweddarach a chamau cau adeiladau ysgolion.' (ST2)

Dywedodd arweinwyr ysgol eraill eu bod yn ymdrechu i annog llais y disgybl yn eu holl ddysgu ac addysgu gan ddefnyddio mecanweithiau ar-lein:

'Fel ysgol rydym bob amser wedi ceisio cael ein hysbysu gan ddisgyblion yn ein holl ddysgu ac addysgu. Hoffem feddwl bod ein cyfarfodydd Teams ar-lein wedi helpu disgyblion i deimlo bod ganddynt lais yn y gwersi a'r gweithgareddau a oedd yn cael eu gosod yn ystod y cyfnod clo.' (PT2)

Defnyddiodd ysgolion Microsoft Teams ar gyfer llais y disgybl ar ffurf arolwg, yn ystod addysg ar-lein neu yn yr ysgol. Roedd holiaduron ac arolygon Google Forms yn amhrisiadwy o ran nodi pryderon a mynd i'r afael â nhw trwy gydol y cyfnodau clo. Roedd rhai ysgolion yn defnyddio Jamboards i rannu syniadau tra roedd mwyafrif y disgyblion gartref. Defnyddiwyd Flipgrid hefyd i gyfathrebu a rhannu syniadau ac annog adborth gan blant. Defnyddiwyd Cahoot hefyd i lywio tasgau / cynllunio ar gyfer yr wythnos nesaf gyda disgyblion. Defnyddiwyd Hwb hefyd ar gyfer dysgu gartref a gwaith cydweithredol. Fel yr amlygir gan un arweinydd ysgol:

'Roedd defnydd ar-lein o blatfform Hwb yn ddefnyddiol iawn i athrawon a disgyblion ac rydym yn dal i ddefnyddio rhai agweddau a goleddasom yn ystod y cyfnod clo'. (ST1)

Defnyddiwyd Google Classrooms i anfon negeseuon a chael adborth gan ddisgyblion. Trwy'r ystafell ddosbarth ar-lein, roedd disgyblion yn gallu cyfathrebu ag athrawon a phenaethiaid blwyddyn trwy sylwadau cyfrinachol. Roedd mecanweithiau hefyd ar gael i blant anfon e-bost at y pennaeth blwyddyn/athro dosbarth i rannu unrhyw bryderon neu godi pwyntiau.

Roedd ysgolion yn gallu cynnig cyfleoedd i ddisgyblion benderfynu ar y gweithgareddau yr oeddent yn fodlon ymgymryd â nhw. Cyflawnwyd hyn trwy arolygon ar-lein, rhannu syniadau ar lwyfannau ar-lein a phleidleisio ar weithgareddau, pynciau a thasgau a ffafrir. Er enghraifft, rhoddodd un ysgol ddetholiad o weithgareddau y gallai'r disgyblion eu dewis a hwyluso amgylchedd lle gallai disgyblion ddewis cymryd rhan yn ôl eu dymuniad.

Roedd ysgol arall yn annog plant i uwchlwytho eu tasgau a'u diddordebau, a rhoddodd hyn gyfle i'r staff gynllunio tasgau ysgogol yr oedd gan y plant ddiddordeb ynddynt, 'ffordd dda o gael llais y disgyblion'.

Mae'r ysgolion hyn yn dangos eu bod wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i uwchsgilio a defnyddio'r technolegau ar-lein sydd ar gael i gefnogi llais y disgybl.

4.2.2 Gweithio ar y cyd

Pwysleisiodd arweinwyr ysgolion hefyd sut yr oeddent yn ceisio cefnogi gweithio ar y cyd gan ddefnyddio mecanweithiau ar-lein ar draws yr ysgol, a chydag asiantaethau a chymunedau yn allanol.

Dywedodd arweinwyr ysgol fod gwasanaethau rhithwir yn cael eu defnyddio i gynnwys llais y disgybl mewn ysgolion. Adroddodd un arweinydd ysgol sut mae 'Llysgenhadon Arbennig Llais Disgybl wedi arwain gwasanaethau dros Teams.' Nododd rhai ysgolion sut roedd prosiectau gweithio ar y cyd, gan ddefnyddio Microsoft Teams (wrth gyfuno dysgu / tra gartref), yn caniatáu i blant barhau i gydweithio ar brosiectau / darnau o waith. Roedd y plant yn gallu defnyddio ystafelloedd ymneilltuo / sefydlu eu cyfarfodydd eu hunain neu weithio ar Power Point er enghraifft, cydnabuwyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant, yn enwedig pan oedd plant wedi'u hynysu oddi wrth ei gilydd yn ystod y cyfnod clo llawn.

Nodwyd hefyd brosiectau gweithio ar y cyd, tra mewn swigod, pan oeddent yn ôl yn yr ysgol, i ganiatáu i blant feithrin perthnasoedd / cyfathrebu â dosbarthiadau eraill trwy Microsoft Teams. Roedd hyn yn rhywbeth a nodwyd, trwy drafodaethau llesiant gyda'r plant, yr oeddent am ei ddatblygu.

Mewn rhai ysgolion, roedd plant yn gweithio yn eu swigod ac yna'n rhannu syniadau ar-lein â'i gilydd. Er enghraifft:

'cyfarfod ar gyfer Addoli ar y Cyd. Gofynnwyd Cwestiynau Mawr pan wnaethom ni i gyd gyfarfod ar-lein yn ein hystafelloedd dosbarth. Trafododd y plant ac yna cytuno ar ateb, barn ac yna siaradodd rhai ac fe wnaeth pobl eu bwydo yn ôl i weddill yr ysgol yn fyw ar gamera.' (PT4)

Nododd rhai arweinwyr ysgol sut yr oeddent wedi defnyddio Google Classroom a Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd ar gyfer y gwahanol glybiau yn yr ysgol – a hyd yn oed defnyddio Teams i gyflwyno i gynrychiolwyr y Corff Llywodraethol ar fentrau newydd o fewn yr ysgol.

Roedd ysgolion eraill hyd yn oed yn llwyddiannus wrth barhau â chydweithrediadau allanol gan wneud y gorau o'r mecanweithiau ar-lein. Er enghraifft:

'Roedd gan yr ysgol brosiect gydag ysgol yn Lesotho a thrwy gydol y pandemig maent wedi cynnal cyfarfodydd ar-lein gyda staff a disgyblion i barhau â'r prosiect.' (ST3)

Nododd un ysgol, oherwydd y defnydd cynyddol o Microsoft Teams, trwy ddysgu cyfunol ac wrth ddychwelyd i'r ysgol, eu bod wedi gallu parhau i rannu eu dysgu gyda'u cymunedau, fel y nodir gan arweinydd ysgol isod:

'...cymuned, wedi'i hysbrydoli gan 'weledigaeth' y plant h.y. mae'r heddlu, rhieni / gwirfoddolwyr / Dogs Trust ac ati wedi gallu cyfathrebu'n dda a chyrraedd cynulleidfa fwy. Roedd dyddiau trochi yn gallu parhau oherwydd Teams (er enghraifft, gwnaeth Ballet Cymru weithdy ar-lein a oedd yn llwyddiannus drwy'r ysgol gyfan gyda phob dosbarth yn cymryd rhan yn eu swigod eu hunain).' (PT5)

Mae'n amlwg o'r arweinwyr ysgol a gynigiodd wybodaeth am ymdrechion i barhau â gweithgareddau llais y disgybl yn ystod y pandemig, bod arloesi ac uwch-sgilio i ddefnyddio technoleg ar-lein yn allweddol i sicrhau bod llais y disgybl yn gallu parhau yn llwyddiannus, a bod hyn o fudd i gydweithio yn fewnol o fewn amgylcheddau ysgol yn ogystal ag yn allanol gydag asiantaethau a chymunedau eraill.

4.2.3 Defnyddio gofod ffisegol dan do ac yn yr awyr agored

Dyweddodd arweinwyr ysgol eraill sut, pan wnaeth ysgolion ailagor, eu bod yn canolbwyntio ar gefnogi llais y disgybl yn yr amgylchedd awyr agored trwy ddefnyddio gweithgareddau lles gweithredol, er enghraifft, dywedodd arweinydd ysgol:

'Fe wnaethon ni ganolbwyntio'n wirioneddol ar lawer o weithgareddau lles gweithredol a dysgu yn yr awyr agored, gan gynnwys y plant cymaint â phosibl wrth ddewis gweithgareddau. Fe wnaethom adolygu ein lefelau ymgysylltu yn rheolaidd a cheisio sicrhau ein bod yn darparu mwy o'r gweithgareddau a oedd yn hyrwyddo ymgysylltiad disgyblion.' (PT3)

Dyweddodd un arweinydd ysgol eu bod wedi gallu parhau i gynnwys plant yn y broses o recriwtio staff ar ôl y cyfnod clo, trwy ddefnyddio ystafelloedd dosbarth mawr a oedd yn caniatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol.

Roedd llai o sylwebaeth ar y defnydd o ofod awyr agored na defnydd arloesol o ofod ffisegol dan do. Roedd rhai ysgolion yn amlwg yn ymdrechu i fod yn greadigol ar ôl i ysgolion ailagor. Fodd bynnag, gwnaeth y mwyafrif o ysgolion sylwadau ar sut yr oeddent wedi addasu i ddefnyddio mecanweithiau ar-lein.

4.2.4 Cyngorau Ysgol: Gwersi a ddysgwyd

Yn y mwyafrif o ysgolion, cwtogwyd cynnal cyfarfodydd cyngor ysgol nes bod y disgyblion yn ôl yn yr ysgol.

Fodd bynnag, o ddadansoddi'r data ansoddol, ymatebodd chwarter yr holl ysgolion eu bod wedi parhau â chyfarfodydd cyngor ysgol mewn rhyw fformat. Ymatebodd rhai ysgolion yn arloesol, gan drefnu i'r cyngorau ddefnyddio platfformau ar-lein a phan oeddent yn ôl yn yr ysgol, parhawyd i ddefnyddio platfformau ar-lein oherwydd cyfyngiadau swigod, neu leoedd mwy i gefnogi pellter cymdeithasol neu ardaloedd awyr agored.

4.2.4.1 Cyngorau Ysgol: Yn ystod y cyfnodau clo neu ynysu

Defnyddiodd ysgolion dulliau digidol i gynnal cyfarfodydd cyngor a Google Forms i gasglu barn a gwybodaeth. Bu Google Classroom, Google Meet, a Google Forms yn amhrisiadwy wrth gefnogi cyngorau ysgol trwy gydol y pandemig.

'Fe wnaethon ni gyfarfod ar-lein trwy Teams/ Google Meet. Bu'r plant yn gweithio yn eu swigod ac yna'n rhannu syniadau ar-lein â'i gilydd... Bu'r plant yn eu trafod, cytuno ar ddatrysiad, barn ac yna bu rhai pobl yn eu bwydo yn ôl i weddill yr ysgol yn fyw ar gamera. Fe wnaethom hefyd gynnal grwpiau llais disgyblion, grwpiau blwyddyn, o'n hystafelloedd dosbarth yn hytrach nag ar draws grwpiau blwyddyn gymysg.' (PT4)

Dyweddodd ysgol arall fod y cyngor ysgol wedi llwyddo i barhau â'r dadansoddiad o adroddiad RYIY (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgol):

'Pan ddechreuodd y cyfnod clo, derbyniodd yr ysgol eu hadroddiad RYIY 2020 (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd yr Ysgol). Mewn blynyddoedd blaenorol, byddai llawer o ymgynghori wedi digwydd gyda'r holl ddisgyblion, staff a'r gymuned yn dadansoddi a datblygu cynllun gweithredu. Oherwydd y cyfnod clo a'r newid sydyn yn y diwrnod ysgol i fynd ar-lein, cafodd hyn ei addasu i sicrhau y byddai rhywfaint o ddadansoddi'n digwydd a chynllun gweithredu'n cael ei gynhyrchu drwy fecanweithiau ar-lein. Cynhaliodd y cyngor ysgol y dadansoddiad dros Teams, mewn gweithdai is-grŵp a staff hefyd.' (ST3)

Dangosodd ysgol arall eu bod hefyd wedi bod yn arloesol wrth gynnwys plant mewn gwaith ymchwil:

'Rydym hefyd wedi cynnal Ymchwil Weithredol ar Fanteision Dysgu yn yr Awyr Agored. Gwnaed hyn gan ddefnyddio gweithgareddau awyr agored a defnyddiwyd dogfen gydweithredol ar Google Slides i gofnodi gwaith ymchwil. Bu hyn yn llwyddiannus a chafodd ei nodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel nodwedd ym mis Mai. Rydym wedi ymdrechu'n galed eleni i gael cymaint o grwpiau Llais y Disgybl ar waith ac rydym hefyd wedi cyflwyno hyrwyddwyr Lles sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl da ac yn ei hybu.' (PT5)

Defnyddiodd Cynghorau Ysgol dudalennau Twitter ac Instagram i godi cyfathrebu ar draws eu cyfoedion. Dechreuodd un Cyngor Ysgol, Post Dydd Llun wythnosol i gyfeirio adnoddau ac offer lles i gymuned yr ysgol. Defnyddiodd ysgol arall 'Padlet', a oedd yn caniatáu ar gyfer rhannu syniadau yn ystod y cyfnod yr oedd yr ysgol wedi cau ac roedd cyfarfodydd Teams dyddiol yn caniatáu i ddisgyblion gael cyfleoedd i rannu eu syniadau am waith a digwyddiadau arbennig. Bu cynghorau ysgol eraill yn rhannu gwybodaeth am Seesaw.

4.2.4.2 Cynghorau Ysgol: ar ôl dychwelyd i'r ysgol gyda chyfyngiadau swigen dosbarth

Roedd ysgolion yn gweld dychwelyd i'r ysgol a'r cyfyngiadau swigod yn heriol, ac adlewyrchir hyn gan arweinydd ysgol yn yr ymateb canlynol:

'Yn ystod y cyfnod o ddysgu gartref yn ystod tymor y gwanwyn 2021, cyfarfu ein cyngor ysgol yn rhithwir trwy MS Teams ar gyfer cyfarfodydd. Pwrpas hyn oedd casglu llais y disgybl ar gyfer adborth ychwanegol ar ein trefniadau dysgu gartref a oedd yn wersi byw dyddiol trwy gyfarfodydd Teams. Mae gan ein cyngor ysgol, a chynghorau disgyblion eraill,

dudalennau Teams i gyfleu syniadau a rhannu gwybodaeth, rhywbeth sydd wedi bod yn fuddiol iawn i ni yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf. Ar ôl dychwelyd i'r ysgol, daeth y cyfathrebu byw yn fwy anodd oherwydd cyfyngiadau swigod dosbarth ac amseroedd egwyl/cinio bob yn ail.' (PT6)

Cafodd yr heriau o ran swigod ysgol eu hadleisio hefyd gan arweinydd ysgol arall a ddywedodd:

'Roedd y system swigen yn ei gwneud hi'n amhosib i grwpiau traws-flwyddyn gyfarfod yn ystod y pandemig, felly bu'n rhaid cynnal holl gyfarfodydd y cyngor ar-lein a phan oedd y disgyblion adref gyda'r nos. Ers llacio rheoliadau Covid rydym wedi gallu cynnwys ein cyngorau mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae'r disgyblion wedi mwynhau hyn ac yn gwneud cynnydd gwych gyda'u hagendâu.' (ST4)

Fel y gwelir yn y datganiadau uchod, roedd ymyrraeth swigod ystafell ddosbarth wedi effeithio ar gyfleoedd ar gyfer cyngorau traws-flwyddyn / ysgol gyfan yr oedd ysgolion wedi'u sefydlu cyn pandemig.

Adroddodd ysgolion eraill, ar ôl dychwelyd o gau ysgolion, yn lle cael cynrychiolwyr Cyngor Ysgol o'r holl flynyddoedd gwahanol (oherwydd cyfyngiadau Covid) fod un dosbarth yn gyfrifol am y Cyngor Ysgol, ac eraill am gynghorau eraill, e.e. ysgolion iach. Roedd y grwpiau wedyn yn adrodd yn ôl, pan fo'n berthnasol, yn ystod gwasanaeth Teams wythnosol. Mewn ysgol arall, yn lle cael Senedd Ysgol, daeth pob dosbarth yn grŵp Senedd. Adroddodd ysgolion eu bod wedi sefydlu is-gynghorau a gweithiodd hyn yn dda iawn er mwyn bod yn weithredol o ran themâu / heriau allweddol yn yr ysgol. Adroddodd ysgolion sut y gwnaethant gysylltiadau rhithwir yn llwyddiannus â grwpiau llais y disgybl/cyngor ysgol eraill yn yr ysgol a sefydlwyd grwpiau llais y disgybl/cyngor yn yr ystafell ddosbarth. Fel yr adroddir gan arweinydd ysgol isod:

'Mae swigod dosbarth yn canolbwyntio ar gyngor llais disgybl penodol h.y. BI5a – Heddlu Bach, BI5b – Eco. Defnyddiwyd cyfarfodydd Teams / Ymgyrchoedd i hyrwyddo syniadau, rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â disgyblion eraill o fewn yr ysgol.' (PT7)

Dywedodd arweinydd ysgol arall fod symud i gynghorau dosbarth yn daith gadarnhaol i bawb dan sylw:

